



# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

2015 dccc 5

Nodiadau Esboniadol

# QUALIFICATIONS WALES ACT 2015

2015 anaw 5

Explanatory Notes

**£14.25**





# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

2015 dccc 5

Nodiadau Esboniadol

# QUALIFICATIONS WALES ACT 2015

2015 anaw 5

Explanatory Notes

# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cymwysterau Cymru 2015, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mehefin 2015 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 05 Awst 2015. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
2. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf ac ni fwriedir iddynt fod felly. Felly pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol, ni roddir esboniad na sylw pellach.

### Y Cefndir

3. Comisiynwyd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru gan Weinidogion Cymru yn 2011 a Huw Evans, cyn-bennaeth Coleg Llandrillo oedd y Cadeirydd. Y dasg oedd nodi'r modd y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan Gymru gymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n diwallu anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru, a chyflwynwyd adroddiad i'r Gweinidogion ym mis Tachwedd 2012. Pwysleisiodd yr Adolygiad o Gymwysterau bwysigrwydd sicrhau bod y cymwysterau y mae dysgwyr yn eu dilyn yng Nghymru yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ledled y byd.
4. Derbyniodd Gweinidogion Cymru y 42 o argymhellion a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mewn perthynas â'r system gymwysterau yng Nghymru daeth yr adroddiad i'r casgliad "y dylid sefydlu un corff i reoleiddio, cymeradwyo a sicrhau ansawdd pob cymhwyster (yn is na lefel gradd) sydd ar gael yng Nghymru, gan gyflwyno ymagwedd newydd a chryfach at reoleiddio" ac y "byddai penderfyniadau rheoleiddio yn cael eu gwneud ar wahân i'r llywodraeth".
5. Rhagwelodd yr adroddiad hefyd y dylai Cymwysterau Cymru ddod yn sefydliad dyfarnu ar gyfer Cymru, gan ddatblygu a dyfarnu'r "rhan fwyaf o'r cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed a'r rhan fwyaf o'r cymwysterau cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed".
6. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi effaith i ran gyntaf yr argymhelliad am ei bod yn sefydlu corff rheoleiddiol ar gyfer cymwysterau sydd hyd braich oddi wrth Weinidogion Cymru ac sy'n tynnu swyddogaethau rheoleiddiol presennol Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chymwysterau oddi wrthynt. Nid yw'n rhoi pwerau i Gymwysterau Cymru i fod yn gorff dyfarnu. Byddai angen deddfwriaeth bellach i gyflawni hynny.

# QUALIFICATIONS WALES ACT 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Qualifications Wales Act 2015 which was passed by the National Assembly for Wales on 16 June 2015 and received Royal Assent on 05 August 2015. They have been prepared by the Department for Education and Skills of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
2. They are not and not meant to be a comprehensive description of the Act. So where a section or part of a section is self explanatory, no further explanation or comment is provided.

### Background

3. The Review of Qualifications for 14 to 19 year olds in Wales was commissioned by the Welsh Ministers in 2011 and was chaired by Huw Evans, former principal of Llandrillo College. Tasked with identifying how the Welsh Government could ensure that Wales has qualifications that are understood and valued and meet the needs of our young people and the Welsh economy, it reported to Ministers in November 2012. The Review of Qualifications emphasised the importance of ensuring that the qualifications taken by learners in Wales are recognised and valued world-wide.
4. The Welsh Ministers accepted the 42 recommendations contained within the report. In relation to the qualification system in Wales the report concluded that “a single body should be established to regulate, approve and assure the quality of all qualifications (below degree level) available in Wales, bringing in a new and stronger approach to regulation” and that “regulatory decisions would be separate from government”.
5. The report also envisaged that Qualifications Wales should become an awarding organisation for Wales, developing and awarding “most qualifications for 14 to 16-year-olds and most general qualifications for 16 to 19-year-olds”.
6. This Act gives effect to the first part of the recommendation in that it establishes a regulatory body for qualifications at arms’ length from the Welsh Ministers, and removes the Welsh Ministers’ current regulatory functions relating to qualifications. It does not give Qualifications Wales powers to be an awarding body. Further legislation would be required to achieve this.

7. Ar 1 Hydref 2013, cyhoeddwyd papur ymgynghori gan nodi polisi Llywodraeth Cymru a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ym mis Mehefin 2014. Mynegodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gymeradwyaeth gref i'r cynigion i sefydlu corff rheoleiddiol newydd ac mae'r Ddeddf hon yn rhoi effaith i'r cynigion hynny.

### **Crynodeb o'r Bil**

8. Bydd y Ddeddf hon yn sefydlu sefydliad newydd, Cymwysterau Cymru, i gyflenwi model newydd o reoleiddio. O dan y gyfundrefn a sefydlir gan y Ddeddf, bydd Cymwysterau Cymru yn arfer swyddogaethau rheoleiddiol mewn perthynas â chymwysterau a ddyfernir yng Nghymru. Mae'r swyddogaethau sy'n arferadwy gan Gymwysterau Cymru o dan y Ddeddf hon yn disodli swyddogaethau tebyg sy'n cael eu harfer gan Weinidogion Cymru o dan Bennod 2 o Ran 5 o Ddeddf Addysg 1997.
9. Mae'r Ddeddf yn rhoi i Gymwysterau Cymru ddau brif nod sy'n rhoi cyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru am sicrhau bod cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru (a'r system gymwysterau sy'n sylfaen iddynt) yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a hybu hyder y cyhoedd ynddynt. Er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n cyfrannu at effeithiolrwydd a hyder y cyhoedd, mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru ddatblygu a gweithredu system ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu a chymeradwyo a dynodi cymwysterau.
10. Er mwyn rhoi pwerau rheoleiddiol effeithiol i Gymwysterau Cymru, mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaethau i Gymwysterau Cymru i reoleiddio cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru, i ganolbwyntio ar gymwysterau blaenoriaethol, i gymeradwyo ffurfiau ar gymhwyster (sydd wedyn yn gymwys i gael eu darparu i ddysgwyr sy'n mynychu cyrsiau penodol sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus), i ddynodi ffurfiau eraill ar gymhwyster fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar y cyrsiau dysgu hynny, i gyfyngu ar nifer y ffurfiau penodol ar gymhwyster y caniateir iddynt gael eu cymeradwyo, i gomisiynu ffurfiau newydd ar gymhwyster pan fo cyfyngiad o'r fath yn ei le ac i adolygu cymwysterau a'r system gymwysterau.

## **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

### **RHAN 2: SEFYDLU A PHRIF NODAU CYMWYSTERAU CYMRU**

#### **Adran 2: Sefydlu Cymwysterau Cymru**

11. Mae'r adran hon yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff corfforaethol. Mae'n cyflwyno Atodlen 1 sy'n darparu manylion pellach am ei sefydlu ac Atodlen 2 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru drosglwyddo staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o Weinidogion Cymru i Gymwysterau Cymru.

#### **Adran 3: Prif nodau Cymwysterau Cymru**

12. Mae'r adran hon yn nodi prif nodau Cymwysterau Cymru: bydd y rhain yn sail i'r holl waith y bydd Cymwysterau Cymru yn ei wneud - a bydd angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bob amser fod ei gamau yn gydnaws â'r nodau hyn. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru, wrth arfer unrhyw swyddogaeth, weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol at ddiben cyflawni'r prif nodau.

7. A consultation paper setting out the Welsh Government's policy was published on 1 October 2013 and a summary of the responses received to the consultation was published in June 2014. Responses to the consultation expressed strong endorsement of the proposals to set up a new regulatory body and this Act brings into effect those proposals.

### **Summary of the Act**

8. This Act establishes a new organisation, Qualifications Wales, to deliver a new model of regulation. Under the regime established by the Act, Qualifications Wales will exercise regulatory functions in relation to qualifications awarded in Wales. Functions exercisable by Qualifications Wales under this Act replace similar functions exercised by the Welsh Ministers under Chapter 2 of Part 5 of the Education Act 1997.
9. The Act gives Qualifications Wales two principal aims that give Qualifications Wales responsibility for ensuring that qualifications awarded in Wales (and the underpinning qualification system) are effective for meeting the needs of learners and promoting public confidence in them. In order to address a number of matters which contribute to effectiveness and public confidence, Qualifications Wales is required to develop and implement a system for recognising awarding bodies and approving and designating qualifications.
10. In order to provide Qualifications Wales with effective regulatory powers, the Act gives functions to Qualifications Wales to regulate awarding bodies awarding qualifications in Wales, to focus on priority qualifications, to approve forms of qualification (which are then eligible for being provided to learners attending certain publicly funded courses), to designate other forms of qualification as eligible for use on those courses of learning, to restrict the number of certain forms of qualification that may be approved, to commission new forms of qualification where such a restriction is in place and to review qualifications and the qualification system.

## **COMMENTARY ON SECTIONS**

### **PART 2: ESTABLISHMENT AND PRINCIPAL AIMS OF QUALIFICATIONS WALES**

#### **Section 2: Establishment of Qualifications Wales**

11. This section establishes Qualifications Wales as a body corporate. It introduces Schedule 1 which provides further details about its establishment and Schedule 2 which allows the Welsh Ministers to transfer staff of the Welsh Assembly Government and property, rights and liabilities from the Welsh Ministers to Qualifications Wales.

#### **Section 3: Principal aims of Qualifications Wales**

12. This section sets out the principal aims of Qualifications Wales: these will underpin all of the work that Qualifications Wales undertakes – and Qualifications Wales will need always to ensure that its actions are compatible with these aims. This section requires Qualifications Wales, in exercising any function, to act in a way that it considers appropriate for the purpose of achieving the principal aims.

13. Mae'r prif nod cyntaf yn rhoi'r cyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru am sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru. Mae ystyr cymhwyster wedi ei ddiffinio yn adran 56. Er bod y prif nod hwn yn eang ei gwmpas, mae Rhan 4 o'r Ddeddf (cymwysterau blaenoriaethol a chymeradwyo cymwysterau) yn darparu ar gyfer rhoi blaenoriaeth i rai cymwysterau, fel y caiff Cymwysterau Cymru ganolbwyntio ar gymeradwyo cymwysterau. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu dynodi ffurfiau eraill ar gymwysterau o dan Ran 5 fel rhai sy'n gymwys i gael eu cyllido ar raglenni dysgu penodol a rheoleiddio'r broses o ddyfarnu'r cymwysterau hynny a chymwysterau eraill yng Nghymru gan gyrrff dyfarnu cydnabyddedig drwy amodau cydnabod o dan Ran 3 (gweler adran 36). Mae'r prif nod hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gymryd cyfrifoldeb am effeithiolrwydd y system gymwysterau yng Nghymru (sef, y system gyfan y dyfernir cymwysterau drwyddi i bersonau a asesir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ar gyfer y cymwysterau hynny, fel y'u diffinnir yn adran 3(3)). Y 'system' yw'r seilwaith sy'n sail i'r gwaith o gyflenwi cymwysterau ac sy'n galluogi i hynny gael ei wneud - mae'n cynnwys y ffordd y mae cymwysterau yn cael eu datblygu, eu cyflenwi a'u dyfarnu ynghyd â beth sy'n cael ei ddatblygu, ei gyflenwi a'i ddyfarnu.
14. Mae'r ail brif nod yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru hybu hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system ategol. Er mwyn i'r cymwysterau a'r system fod yn wirioneddol effeithiol, gyda'i gilydd rhaid iddynt ysbrydoli hyder y cyhoedd. Gallai asesiad o hyder y cyhoedd gynnwys, er enghraifft, lefel hyder cyflogwyr, darparwyr dysgu, dysgwyr, rhieni a gofalgwyr yng ngwerth cymharol y cymwysterau a ddilynir yng Nghymru o'u cymharu â'r rheini a ddilynir, er enghraifft, yn Lloegr.
15. Mae is-adran 2 yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r materion y mae rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddynt wrth benderfynu ar yr hyn sy'n briodol at ddiben cyflawni ei brif nodau. Er bod y rhan fwyaf o'r materion hyn yn hunanesboniadol, caiff nodiadau ychwanegol eu darparu yma i roi cyd-destun a/neu enghreifftiau i egluro rhai o'r termau:
  - a) Mae gweithlu medrus yn ffactor pwysig yn nhwf economi Cymru - ac mae cymwysterau yn ddangosydd o sgiliau darpar weithwyr newydd ac yn ffon fesur ar gyfer datblygu sgiliau'r gweithlu presennol (paragraff (a)).
  - b) Bydd angen i Gymwysterau Cymru ystyried yn benodol y ddarpariaeth o asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac, er enghraifft, y ddarpariaeth o gymwysterau sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu neu ddefnyddio'r Gymraeg (paragraff (b)).
  - c) Mae 'trefniadau asesu' wedi ei ddiffinio yn adran 57(3) a'i ystyr yw "trefniadau ar gyfer asesu'r sgiliau perthnasol, yr wybodaeth berthnasol a'r ddealltwriaeth berthnasol mewn perthynas â'r cymhwyster". Gall ystyriaethau gynnwys natur yr asesiad a gyflawnir gan ddysgwyr (er enghraifft, ystyried ansawdd papur arholiad) ynghyd ag, er enghraifft, y trefniadau diogelwch mewn perthynas â storio cofnodion asesu (paragraff (c)).



13. The first principal aim gives Qualifications Wales responsibility for ensuring the effectiveness of qualifications in meeting the reasonable needs of learners in Wales. The meaning of qualification is defined in section 56. While this principal aim is broad in scope, Part 4 of the Act (priority qualifications and approval of qualifications) provides for the prioritisation of some qualifications, so that Qualifications Wales may focus its activities on approving qualifications. Qualifications Wales will be able to designate other forms of qualifications under Part 5 as eligible for funding on certain programmes of learning and to regulate the award in Wales of those and other qualifications by recognised awarding bodies through conditions of recognition under Part 3 (see section 36). This principal aim also requires Qualifications Wales to take responsibility for the effectiveness of the qualification system in Wales (namely, the whole system by which qualifications are awarded to persons who are assessed wholly or mainly in Wales for those qualifications, as defined in section 3(3)). The 'system' is the infrastructure which underpins and enables the delivery of qualifications – it includes the *way* that qualifications are developed, delivered and awarded as well as *what* is developed, delivered and awarded.
  
14. The second principal aim requires Qualifications Wales to promote public confidence in both the qualifications and the supporting system. For the qualifications and the system to be truly effective, together they must inspire public confidence. An assessment of public confidence could include, for example, the level of confidence of employers, learning providers, learners, parents and carers in the relative value of qualifications taken in Wales compared with those taken, for example, in England.
  
15. Sub-section 2 sets out a non-exhaustive list of the matters to which Qualifications Wales must have regard in determining what is appropriate for the purpose of meeting its principal aims. While most of these matters are self-explanatory, additional notes are provided here to give context and/or examples to illustrate some of the terms:
  - a) A skilled workforce is an important factor in the growth of the Welsh economy – and qualifications are both an indicator of the skills of potential new workers and a measure for developing the skills of the existing workforce (paragraph (a)).
  - b) Qualifications Wales will need to specifically consider the provision of assessments through the medium of Welsh and, for example, the provision of qualifications that enable learners to develop or use the Welsh language (paragraph (b)).
  - c) 'Assessment arrangements' are defined in section 57(3) to mean "arrangements for assessing relevant skills, knowledge and understanding in relation to the qualification". Considerations may include the nature of the assessment taken by learners (for example, consideration of the quality of an examination paper) as well as, for example, the security arrangements relating to the storage of assessment records (paragraph (c)).

- d) Gallai gofynion rhesymol cyflogwyr gael eu hystyried, er enghraifft, mewn perthynas â'r angen i roi i ddysgwyr yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n berthnasol i gyflogaeth gyffredinol a phenodol. Gall fod angen i sefydliadau addysg uwch fod wedi eu bodloni, er enghraifft, fod y cymwysterau a ddyfernir i ddysgwyr yng Nghymru yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng lefelau gwahanol o allu ac yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer astudiaeth bellach. Nid yw'r 'proffesiynau' wedi eu cyfyngu i unrhyw restr gyfyngedig o broffesiynau ond gellir cymryd eu bod yn cynnwys, er enghraifft, safbwyntiau cynrychiolwyr ac arbenigwyr proffesiynol perthnasol (paragraff (d)).
- e) Rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i gynnwys cymwysterau, yn benodol y graddau y maent yn gyfredol ac yn adlewyrchu arferion gorau, er enghraifft, wrth gyflawni tasgau (paragraff (e)).
- f) Gall 'lefel o gyrhaeddiad sy'n gyson', er enghraifft, ymwneud â chysondeb dros amser, rhwng cenedloedd gwahanol (gan gynnwys y rheini yn Ewrop), rhwng pynciau neu rhwng cymwysterau a ddilynir gan grŵp oedran penodol. Yn y cyd-destun hwn, gallai cyrhaeddiad gyfeirio, er enghraifft, at y graddau y mae dysgwyr wedi caffael (neu y mae'n ofynnol iddynt gaffael) y lefel ofynnol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n ymwneud â'r cymhwyster (paragraff (f)).
- g) Nid yw ystyried a yw cymwysterau yn cael eu cyflenwi yn 'effeithlon' wedi ei gyfyngu i ystyriaethau ariannol neu economaidd yn unig ond caiff gynnwys, er enghraifft, ystyriaeth o effaith nifer ac ansawdd y rhyngweithiadau rhwng cyrff ac unigolion gwahanol ar effeithiolrwydd a hyder y cyhoedd (paragraff (g)).
- h) Wrth ystyried effeithiolrwydd y system, bydd angen i Gymwysterau Cymru ystyried rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff yn y system honno, gan gynnwys, er enghraifft, ei rôl ei hun yn y system (paragraff (h)).

### **RHAN 3: CYDNABOD CYRFF DYFARNU**

16. Caiff cyrff dyfarnu wneud cais am gydnabyddiaeth gyffredinol gan Gymwysterau Cymru a chael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru (drwy amodau cydnabod) mewn cysylltiad â chymwysterau y maent wedi eu cydnabod ar eu cyfer ac sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru. Mae adan 57 yn diffinio "corff dyfarnu" fel "person sy'n dyfarnu, neu sy'n bwriadu dyfarnu, cymhwyster". Nid yw'n ofynnol i gorff dyfarnu fod yn gorff cydnabyddedig er mwyn dyfarnu cymwysterau yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid i gorff dyfarnu fod yn gorff cydnabyddedig er mwyn gwneud cais am gymeradwyaeth neu ddynodiad i ffurf ar gymhwyster y mae'n ei dyfarnu. Yn gyffredinol, dim ond cymwysterau o'r fath sy'n gallu cael eu darparu ar gyrsiau penodol sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus. Yn ogystal, drwy ddethol cymwysterau gan gorff dyfarnu a gydnabyddir, bydd darparwyr dysgu, a thrwyddynt hwy, dysgwyr, yn cael eu hamddiffyn yn fwy yn sgil goruchwyliaeth gan gorff rheoleiddiol.

- d) The reasonable requirements of employers could be taken into account, for example, in relation to the need to equip learners with the knowledge, skills and understanding relevant to general and particular employment. Higher education institutions may need to be satisfied, for example, that the qualifications awarded to learners in Wales both sufficiently differentiate between different levels of ability and provide sufficient preparation for further study. ‘The professions’ is not confined to any limited list of professions but may be taken to include, for example, the views of relevant professional experts and representatives (paragraph (d)).
- e) Qualifications Wales must have regard to the content of qualifications, in particular the extent to which they are up to date and to which they reflect best practice in, for example, the performance of tasks (paragraph (e)).
- f) A ‘consistent level of attainment’ may, for example, relate to consistency over time, across different nations (including those in Europe), across subjects or across qualifications taken by a given age group. Attainment, in this context, could refer, for example, to the extent to which learners have acquired (or are required to acquire) the requisite level of knowledge, skills and understanding pertaining to the qualification (paragraph (f)).
- g) Consideration of whether qualifications are delivered ‘efficiently’ is not limited solely to financial or economic considerations but may, for example, include consideration of the impact on effectiveness and public confidence of the number and quality of interactions between different bodies and individuals (paragraph (g)).
- h) In considering the effectiveness of the system, Qualifications Wales will need to consider the roles and responsibilities of the different bodies in that system, including, for example, its own role in the system (paragraph (h)).

### **PART 3: RECOGNITION OF AWARDING BODIES**

16. Awarding bodies may apply for general recognition by Qualification Wales, and be regulated by Qualifications Wales (through conditions of recognition) in respect of qualifications for which they are recognised and which are awarded in Wales. Section 57 defines “awarding body” as “a person who awards, or proposes to award, a qualification”. There is no requirement that an awarding body be recognised in order to award qualifications in Wales. An awarding body must however be recognised in order to apply for the approval or designation of a form of qualification it awards. Generally speaking, it is only such qualifications that can be provided on certain publicly funded courses. In addition, by selecting qualifications from an awarding body that is recognised, learning providers, and through them learners, will be provided with the additional levels of protection that the oversight of a regulatory body provides.

17. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at ddau fath o gydnabyddiaeth: cyffredinol a phenodol. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol yn cynnwys pob cymhwyster ac eithrio'r rhai y mae Cymwysterau Cymru wedi datblygu meini prawf cydnabod penodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, gwneir darpariaeth hefyd yn ddiweddarach yn y Rhan hon yn adran 8 i alluogi cyrff dyfarnu i eithrio cymwysterau penodol o'u cais am gydnabyddiaeth gyffredinol, gan olygu na fyddai Cymwysterau Cymru yn cymhwyso'r amodau cydnabod i'r cymhwyster a eithrir ac felly na fyddai'n rheoleiddio'r cymhwyster a eithrir. Caiff cyrff dyfarnu wneud cais ar ôl hynny i Gymwysterau Cymru os ydynt yn dymuno i'r cymhwyster a eithrir gael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru yn y dyfodol.
18. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion a nodir yn adran 54(2) (cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol). Gweler hefyd adran 47 o ran y gofyniad i lunio datganiad o'i bolisi mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Rhan hon.

#### **Adran 4: Cydnabod cyrff dyfarnu**

19. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i gydnabod cyrff dyfarnu. Mae adran 57 yn diffinio ystyr "cyrff dyfarnu". Dim ond cyrff dyfarnu sydd wedi cael eu cydnabod gan Gymwysterau Cymru a gaiff wneud cais i gael eu cymwysterau wedi eu cymeradwyo neu eu dynodi gan Gymwysterau Cymru (ac felly'n gymwys i gael eu defnyddio ar gyfer cyrsiau penodol sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus). Fel arfer, mae cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau ac yn eu cyflenwi drwy ddarparwyr dysgu, megis ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae cyrff dyfarnu yn pennu ac yn gweinyddu trefniadau asesu ac yn atebol am benderfynu pa un ai i ddyfarnu cymhwyster i ddysgwyr ai peidio (ac, os yw'n briodol, pa radd y dylid ei dyroddi).

#### **Adran 5: Dyletswydd i osod meini prawf cydnabod cyffredinol**

20. Mae Cymwysterau Cymru o dan ddyletswydd i osod a chyhoeddi'r meini prawf y bydd yn ystyried pa un ai i gydnabod, yn gyffredinol, corff dyfarnu ai peidio yn eu herbyn. Cyfeirir at y meini prawf hyn fel 'meini prawf cydnabod cyffredinol' ond caniateir meini prawf gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o gyrff dyfarnu. Enghraifft o faen prawf cyffredinol a allai fod yn gymwys i bob corff fyddai gofyniad bod gan corff dyfarnu drefniadau priodol i nodi a monitro achosion o wrthdaro buddiannau. Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd maen prawf ar y gallu i ddarparu cyfleusterau warws diogel i storio papurau arholiad yn ddiogel yn gymwys i gorff dyfarnu sy'n darparu asesiad ar-lein yn unig.

17. The Act refers to two types of recognition: general and specific. General recognition covers all qualifications except those for which Qualifications Wales has developed specific recognition criteria. However, provision is also made later in this Part at section 8 to enable awarding bodies to exclude certain qualifications from their application for general recognition, with the effect that Qualifications Wales would not apply the conditions of recognition to the excluded qualification and so would not regulate the excluded qualification. Awarding bodies may subsequently apply to Qualifications Wales if they wish the excluded qualification to become regulated by Qualifications Wales in future.
18. In exercising its functions under this Part Qualifications Wales must have regard to the principles set out in section 54(2) (performance of regulatory activities). See also section 47 as to the requirement to prepare a statement of its policy in relation to its functions under this Part.

#### **Section 4: Recognition of awarding bodies**

19. This section gives Qualifications Wales the power to recognise awarding bodies. Section 57 defines what is meant by an “awarding body”. Only awarding bodies that have been recognised by Qualifications Wales may apply to have their qualifications approved or designated by Qualifications Wales (and so eligible for use on certain publicly funded courses). Awarding bodies typically develop qualifications and deliver them through learning providers, such as schools, colleges and work-based learning providers. Awarding bodies specify and administer assessment arrangements and are accountable for determining whether or not to award a qualification to a learner (and, if appropriate, what grade should be issued).

#### **Section 5: Duty to set general recognition criteria**

20. Qualifications Wales is under a duty to set and publish the criteria against which it will consider whether or not to recognise, generally, an awarding body. These criteria are referred to as ‘general recognition criteria’ but there may be different criteria for different types of awarding body. An example of a general criterion that might apply to all bodies would be a requirement that an awarding body has appropriate arrangements to identify and monitor conflicts of interest. On the other hand, a criterion about the ability to provide safe warehouse facilities to store secure examination papers may not be applicable to an awarding body solely providing online assessment.

**Adran 6: Pŵer i osod meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster**

21. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i benderfynu y dylai cyrff dyfarnu sy'n bwriadu cynnig mathau penodol o gymhwyster, yn ychwanegol at y meini prawf cydnabod cyffredinol, fodloni meini prawf penodol er mwyn cael eu rheoleiddio mewn cysylltiad â hwy ac er mwyn bod yn gymwys i gyflwyno'r mathau hynny o gymhwyster i Gymwysterau Cymru eu cymeradwy neu eu dynodi. Er enghraifft, caniateir i Gymwysterau Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu sy'n bwriadu cynnig cymwysterau TGAU a/neu Safon Uwch yng Nghymru ddangos ei fod yn gallu bodloni prosesau marcio a graddio mewn pryd i ddyroddi nifer mawr o ganlyniadau cywir ar un dyddiad. Fel yn achos meini prawf cydnabod cyffredinol, caniateir i'r meini prawf cydnabod penodol amrywio yn unol â'r math o gorff dyfarnu. Yn ychwanegol, caniateir iddynt amrywio yn unol â'r math o gymhwyster o dan sylw.

**Adran 7: Diwygio meini prawf cydnabod cyffredinol a meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster**

22. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i ddiwygio'r meini prawf cydnabod cyffredinol a'r meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster. Rhaid iddo gyhoeddi'r meini prawf diwygiedig a'i gwneud yn glir o ba ddyddiad y mae'r diwygiadau yn gymwys. Rhaid cyhoeddi meini prawf diwygiedig cyn y gallant ddod i rym. Er nad oes gofyniad datganedig i gorff dyfarnu, unwaith y bydd wedi ei gydnabod, barhau i fodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol neu'r meini prawf sy'n benodol i gymhwyster, gallai Gymwysterau Cymru gynnwys gofyniad o'r fath fel amod cydnabod o dan Atodlen 3.

**Adran 8: Cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol**

23. Caiff cyrff dyfarnu wneud cais i Gymwysterau Cymru i gael eu cydnabod yn gyffredinol yn gorff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gydnabod pob corff dyfarnu sydd wedi gwneud cais iddo ac sy'n bodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol sydd wedi eu cyhoeddi. Fodd bynnag, caiff cyrff dyfarnu bennu, wrth wneud cais i gael eu cydnabod, nad ydynt yn dymuno cael eu cydnabod yn gyffredinol mewn cysylltiad â chymhwyster penodedig neu ddisgrifiad penodedig o gymhwyster – hynny yw, eu bod yn dymuno eithrio un neu ragor o gymwysterau penodedig rhag cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru. Mae'n bosibl y bydd corff dyfarnu yn dymuno gwneud hyn, er enghraifft, yn achos cymhwyster y mae wedi ei ddatblygu i ddiwallu anghenion cyflogwr penodol ac nad yw'n galluogi'r corff dyfarnu i fodloni amodau cydnabod Gymwysterau Cymru (efallai mewn perthynas â strwythur neu enw'r cymhwyster). Mewn achos o'r fath, nid yw'r meini prawf y caiff y cais ei ystyried yn eu herbyn i gynnwys meini prawf i'r graddau y maent yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw gymwysterau a eithrir. Felly pan na fo corff dyfarnu yn bodloni'r holl feini prawf ond nid yw ei fethiant i wneud hynny ond i'r graddau y mae'r meini prawf yn gymwys i gymhwyster y mae wedi ei eithrio o'i gais am gydnabyddiaeth, effaith is-adran (6) yw bod rhaid i Gymwysterau Cymru gydnabod y corff dyfarnu. Os yw corff dyfarnu wedi eithrio cymwysterau o'i gydnabyddiaeth o'r blaen, wedi ildio rhan o'i gydnabyddiaeth gyffredinol neu fod rhan o'i gydnabyddiaeth gyffredinol wedi ei thynnu'n ôl, caiff wneud cais i Gymwysterau Cymru i gynnwys y cymwysterau hynny yn ei gydnabyddiaeth gyffredinol yn y dyfodol (gweler is-adrannau (7) ac (8)).

### **Section 6: Power to set qualification specific recognition criteria**

21. This section gives Qualifications Wales the power to determine that awarding bodies intending to offer certain types of qualification should, in addition to the general recognition criteria, meet specific criteria in order to be regulated in respect of them and to be eligible to submit those types of qualification to Qualifications Wales for approval or designation. For example, Qualifications Wales may require all awarding bodies intending to offer GCSEs and/or A levels in Wales to demonstrate a capability to fulfil marking and grading processes in time to issue a high volume of accurate results on a single date. As with the general recognition criteria, the specific recognition criteria may vary according to the type of awarding body. In addition, they may vary according to the type of qualification in question.

### **Section 7: Revision of general and qualification specific recognition criteria**

22. This section gives Qualifications Wales the power to revise the general and qualification specific recognition criteria. It must publish the revised criteria and make it clear from which date the revisions apply. Revised criteria must be published before they can come into effect. Although there is no express requirement for an awarding body, once recognised, to continue to meet the general recognition or qualification specific recognition criteria, Qualifications Wales could include such a requirement as a condition of recognition under Schedule 3.

### **Section 8: General recognition of an awarding body**

23. Awarding bodies may apply to Qualifications Wales to become generally recognised as a body awarding qualifications in Wales. This section requires Qualifications Wales to recognise all awarding bodies that have applied to it and which meet the published general recognition criteria. Awarding bodies may however specify, in applying to be recognised, that they do not wish to be generally recognised in respect of a specified qualification or description of qualification – that is, that they wish to exclude one or more specified qualifications from regulation by Qualifications Wales. An awarding body may wish to do this, for example, in the case of a qualification that it has developed to meet the needs of a particular employer and which does not enable the awarding body to meet Qualifications Wales's conditions of recognition (perhaps in relation to the structure or title of the qualification). In such a case, the criteria against which the application is considered are not to include criteria to the extent that they apply in respect of any excluded qualifications. So where an awarding body does not meet all the criteria but its failure to do so is only to the extent that the criteria apply to a qualification which it has excluded from its application for recognition, the effect of subsection (6) is that Qualifications Wales must recognise the awarding body. If an awarding body has previously excluded qualifications from its recognition, surrendered part of its general recognition, or had part of its general recognition withdrawn, it may apply to Qualifications Wales to bring those qualifications into its general recognition in the future (see subsections (7) and (8)).

24. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi Cymwysterau Cymru i gydnabod corff dyfarnu sydd wedi gwneud cais am gydnabyddiaeth gyffredinol, ond nad yw'n bodloni'r holl feini prawf yn llawn (am resymau ac eithrio nad yw'r meini prawf o dan sylw wedi eu bodloni dim ond mewn cysylltiad â chymwysterau sydd wedi eu heithrio o gais y corff dyfarnu am gydnabyddiaeth). Mae is-adran (5) yn nodi'r materion y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i gydnabod corff dyfarnu nad yw'n bodloni'r holl feini prawf. Gallai'r ddarpariaeth hon gwmpasu sefyllfaoedd pan fo'n dod i'r amlwg, er enghraifft, nad yw maen prawf penodol yn berthnasol i'r corff sy'n cael ei ystyried. Mae'n ofynnol cael cydnabyddiaeth gyffredinol cyn y gall Cymwysterau Cymru gymeradwyo (o dan Ran 4) neu ddynodi (o dan Ran 5) unrhyw gymhwyster sy'n cael ei gynnig gan y corff dyfarnu hwnnw. Er mwyn cael rhai mathau o gymwysterau wedi eu rheoleiddio (a hefyd wedi eu cyflwyno i gael eu cymeradwyo neu eu dynodi) gan Gymwysterau Cymru, mae'n bosibl y bydd rhaid i gorff dyfarnu, yn ychwanegol, gael 'cydnabyddiaeth sy'n benodol i gymhwyster' o dan adran 9.

#### **Adran 9: Cydnabod corff dyfarnu mewn ffordd sy'n benodol i gymhwyster**

25. Mae'r adran hon yn debyg i adran 8 ond mae'n gymwys mewn sefyllfaoedd pan fo corff dyfarnu yn gwneud cais i gael ei gydnabod mewn cysylltiad â chymwysterau y mae meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster yn gymwys iddynt (adran 6). Dim ond os yw corff dyfarnu wedi cael cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd y mae'n gallu cael cydnabyddiaeth benodol. Os yw corff yn gwneud cais am gydnabyddiaeth sy'n benodol i gymhwyster, ar yr amod bod y corff hwnnw yn bodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol a'r meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster sy'n gymwys, rhaid i Gymwysterau Cymru gydnabod y corff mewn cysylltiad â'r cymhwyster penodol hwnnw. Fel yn achos y gydnabyddiaeth gyffredinol, os nad yw'r corff yn bodloni'r meini prawf yn llawn, mae gan Gymwysterau Cymru ddisgresiwn i gydnabod y corff o dan yr adran hon.

#### **Adran 10: Pŵer i wneud rheolau ynghylch ceisiadau am gydnabyddiaeth**

26. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru wneud a chyhoeddi'r rheolau y mae angen i gyrff dyfarnu eu dilyn wrth wneud eu cais am gydnabyddiaeth i Gymwysterau Cymru. Caniateir i'r rheolau hyn bennu, er enghraifft, y modd y mae rhaid i geisiadau gael eu gwneud ac unrhyw ffioedd sydd i'w talu am ymdrin â'r cais - ar yr amod bod ffi o'r fath wedi ei chynnwys mewn cynllun cyhoeddedig a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (o dan adran 49).

### **RHAN 4: CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYMERADWYO CYMWYSTERAU**

27. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion a nodir yn adran 54(2) (cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol). Gweler hefyd adran 47 o ran y gofyniad i lunio datganiad o'i bolisi mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Rhan hon.



24. The Act also enables Qualifications Wales to recognise an awarding body that has applied for general recognition but does not fully meet all of the criteria (for reasons other than the criteria in question not being met only in respect of qualifications that have been excluded from the awarding body's application for recognition). Subsection (5) sets out the matters that Qualifications Wales must consider when deciding whether to recognise an awarding body that does not meet all the criteria. This provision could address situations where, for example, it emerges that a particular criterion is not relevant to the body being considered. General recognition is required before any qualification offered by that awarding body can be approved (under Part 4) or designated (under Part 5) by Qualifications Wales. In order to have some types of qualifications regulated (and also submitted for approval or designated) by Qualifications Wales, an awarding body may in addition, have to obtain 'qualification specific recognition' under section 9.

### **Section 9: Qualification specific recognition of an awarding body**

25. This section is similar to section 8 but applies in situations where an awarding body is applying to be recognised in respect of qualifications to which qualification specific recognition criteria apply (section 6). An awarding body can only obtain specific recognition if it also has general recognition. If a body applies for qualification specific recognition, provided that the body satisfies the general and applicable qualification specific recognition criteria, Qualification Wales must recognise the body in respect of that specific qualification. As with general recognition, if the body does not meet the criteria in full, Qualifications Wales has discretion to recognise the body under this section.

### **Section 10: Rules about applications for recognition**

26. This section requires Qualifications Wales to make and publish the rules that awarding bodies need to follow in making their application for recognition to Qualifications Wales. These rules may specify, for example, how applications must be made and any fees to be paid for dealing with the application – providing such a fee has been included in a published scheme approved by the Welsh Ministers (under section 49).

## **PART 4: PRIORITY QUALIFICATIONS AND APPROVAL OF QUALIFICATIONS**

27. In exercising its functions under this Part Qualifications Wales must have regard to the principles set out in section 54(2) (performance of regulatory activities). See also section 47 as to the requirement to prepare a statement of its policy in relation to its functions under this Part.

### **Adran 13: Dyletswydd i lunio rhestr o gymwysterau blaenoriaethol**

28. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i lunio rhestr o gymwysterau sy'n flaenoriaeth i Gymwysterau Cymru. Dim ond os yw'r amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni mewn perthynas â chymhwyster y caniateir iddynt gynnwys y cymhwyster yn y rhestr. Mater i Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru fydd penderfynu, ar y cyd, ar y math o gymwysterau sy'n cael eu cynnwys yn y rhestr - ond gallai gynnwys, er enghraifft, gymwysterau y mae meini prawf cymeradwyo penodol wedi eu datblygu ar eu cyfer er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru - pa un a yw'r rheini mewn perthynas â'r cwricwlwm yng Nghymru neu, er enghraifft, mewn perthynas â gofynion cyflogwyr yng Nghymru. Bydd y cymwysterau hynny yn cael eu cyhoeddi mewn 'rhestr o gymwysterau blaenoriaethol' a chaniateir iddi gael ei diwygio o bryd i'w gilydd, ar yr amod bod Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru yn cytuno. Caniateir i gymwysterau gael eu rhestru naill ai'n unigol, neu drwy gyfeirio at ddisgrifiad sy'n cynnwys mwy nag un cymhwyster.
29. Mae swyddogaethau Cymwysterau Cymru mewn perthynas â chymeradwyo cymwysterau (a nodir yn Rhan 4) yn amrywio yn ôl pa un a yw cymhwyster ar y rhestr ai peidio.
30. Mae is-adran (6) yn cyflwyno'r termau 'cymhwyster blaenoriaethol', 'cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig' a 'cymhwyster blaenoriaethol anghyfyngedig' - y cyfeirir atynt yn adrannau dilynol y Ddeddf.

### **Adran 14: Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig**

31. Mae'r adran hon yn rhoi i Gymwysterau Cymru y pŵer i benderfynu y dylai rhai cymwysterau ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol gael eu cyfyngu i uchafswm nifer y 'ffurfiau' (dyma fersiwn benodol o'r cymhwyster a gynigir gan gorff dyfarnu penodol: adran 56(4)) y caniateir iddynt gael eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru ar unrhyw un adeg. Er enghraifft, caiff Cymwysterau Cymru benderfynu nad yw ond yn bwriadu cymeradwyo un fersiwn o TGAU Iaith Saesneg. Yn yr achos hwn byddai'n gwneud penderfyniad o dan yr adran hon a byddai'r cymhwyster hwn yn dod yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig.
32. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni bod y cyfyngiad a fwriedir yn ddymunol yng ngoleuni ei brif nod a'r amcanion a ganlyn, y caiff wneud penderfyniad o'r fath:
  - a) osgoi anghysondeb rhwng ffurfiau gwahanol ar gymhwyster penodol, a
  - b) galluogi Cymwysterau Cymru i arfer dewis rhwng cyrff dyfarnu a all fod am ddatblygu ffurf newydd ar y cymhwyster neu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.
33. Cyn gwneud a chyhoeddi penderfyniad i gyfyngu ar nifer y ffurfiau a gymeradwywyd ar gymhwyster, rhaid i Gymwysterau Cymru hysbysu pob corff dyfarnu cydnabyddedig ac unrhyw berson eraill y mae Cymwysterau Cymru yn meddwl y gellid yn rhesymol ddisgwyl fod ganddo fuddiant yn y cynnig ac ystyried unrhyw ymatebion y mae'n eu cael oddi wrth y personau hynny sy'n ymwneud â'r cynnig.

### **Section 13: Duty to prepare list of priority qualifications**

28. This section places a duty on Qualifications Wales and the Welsh Ministers to prepare a list of qualifications that are a priority for Qualifications Wales. They may only include a qualification in the list if the condition in subsection (2) is met in relation to the qualification. It will be for Qualifications Wales and the Welsh Ministers to determine together the sort of qualifications that are included in the list – but it might include, for example, qualifications for which specific approval criteria have been developed to meet the needs of learners in Wales – whether those be in relation to the curriculum in Wales or, for example, to the requirements of employers in Wales. Those qualifications will be listed on a published ‘priority qualifications list’ which may be amended from time to time, providing both Qualifications Wales and the Welsh Ministers agree. Qualifications may be listed either individually, or by reference to a description that includes more than one qualification.
29. The functions of Qualifications Wales in relation to approving qualifications (which are set out in Part 4) vary according to whether or not a qualification is on the list.
30. Subsection (6) introduces the terms ‘priority qualification’, ‘restricted priority qualification’ and ‘unrestricted priority qualification’ – which are referred to in the subsequent sections of the Act.

### **Section 14: Restricted priority qualifications**

31. This section gives Qualifications Wales the power to decide that some qualifications on the priority qualification list should be restricted to a maximum number of ‘forms’ (this is a particular version of the qualification offered by a particular awarding body: section 56(4)) which may be approved by Qualifications Wales at any one time. For example, Qualifications Wales may decide that it only intends to approve one version of GCSE English Language. In this case it would make a determination under this section and this qualification would become a restricted priority qualification.
32. Qualifications Wales may only make such a decision if it is satisfied that the intended restriction is desirable in light of its principal aims, and the objectives of:
  - a) avoiding inconsistency between different forms of a qualification; and
  - b) enabling Qualifications Wales to exercise choice between awarding bodies who may want to develop a new form of the qualification or between different forms of qualifications submitted for approval.
33. Prior to making and publishing a decision to restrict the number of approved forms of a qualification, Qualifications Wales must notify each recognised awarding body and any other person Qualifications Wales thinks might reasonably be expected to have an interest in the proposal and consider any responses it receives from those persons that relate to the proposal.

34. Unwaith y bydd Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi penderfyniad i gyfyngu cymhwyster i uchafswm, yna rhaid iddo arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 15 i 17 er mwyn sicrhau nad oes mwy nag uchafswm y ffurfiau ar y cymhwyster yn cael eu cymeradwyo. Caiff Cymwysterau Cymru ymrwmo i drefniadau gyda chorff dyfarnu er mwyn i'r corff dyfarnu ddatblygu'r cymhwyster a chaiff gymeradwyo'r ffurf ar gymhwyster a ddatblygwyd (mae adrannau 15 ac 16 yn cyfeirio at hynny) neu ddethol i'w gymeradwyo o unrhyw ffurfiau ar gymhwyster a gyflwynir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig (mae adran 17 yn cyfeirio at hynny). Nid yw penderfyniad o dan yr adran hon yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw gymeradwyaethau sy'n bodoli i'r ffurfiau ar y cymhwyster o dan sylw. Fodd bynnag, gall olygu bod Cymwysterau Cymru yn cymryd camau i dynnu cymeradwyaeth yn ôl o dan adran 27 a bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw ddynodiadau presennol o'r ffurf ar gymhwyster o dan sylw (gweler adran 30(3) a (4) i gael manylion am yr adegau pan fo dynodiadau adran 29 yn peidio â chael effaith ar y gymeradwyaeth i'r cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig).

**Adran 15: Pŵer i wneud trefniadau i ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig**

35. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i ymrwmo i drefniadau gyda chorff dyfarnu er mwyn i'r corff ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig. Mae'n bosibl y bydd Cymwysterau Cymru yn dymuno gwneud hyn, er enghraifft, os oes angen mynd i'r afael â gofyniad penodol yn y cwricwlwm yng Nghymru - neu os oes bwch yn y farchnad mewn perthynas â sgiliau o ran cyflogaeth sy'n bwysig i Gymru. Mae'r trefniadau hynny wedi eu gwneud gyda golwg ar gyflwyno'r ffurf newydd wedyn i Gymwysterau Cymru i'w chymeradwyo a rhaid i Gymwysterau Cymru gymhwyso ei feini prawf cymeradwyo o dan adran 20. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud trefniadau o'r fath a rhaid i'r weithdrefn fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cystadleuaeth agored, deg a thryloyw i ddethol y corff dyfarnu. Rhaid i Gymwysterau Cymru arfer ei swyddogaethau yn unol â'r cynllun a chaiff ddiwygio'r cynllun o bryd i'w gilydd. Nid oes angen i gorff dyfarnu fod yn gorff cydnabyddedig er mwyn ymrwmo i drefniadau o dan yr adran hon (er y bydd angen i'r corff fod yn gorff cydnabyddedig er mwyn gwneud cais am gymeradwyaeth o dan adran 16).
36. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu pennu gofynion ('meini prawf') ar gyfer y ffurf ar gymhwyster sydd i'w datblygu. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu, os yw'n dewis, gwneud taliadau i'r corff/cyrff dyfarnu am y gwaith y mae'r corff/cyrff dyfarnu yn ei wneud o dan y trefniadau hyn. Fodd bynnag, nid yw taliad yn ofynnol o reidrwydd.

34. Once Qualifications Wales has published a decision to restrict a qualification to a maximum number, it must then exercise its functions under sections 15 to 17 to ensure that no more than the maximum number of forms of the qualification are approved. Qualifications Wales may enter into arrangements with an awarding body for the awarding body to develop the qualification and may approve the form of qualification developed (sections 15 and 16 refer) or select for approval from any forms of qualification submitted by recognised awarding bodies (section 17 refers). A determination under this section does not directly affect any existing approvals of the forms of the qualification concerned. However, it may result in Qualifications Wales taking steps to withdraw approval under section 27 and it will directly affect any existing designations of the form of qualification concerned (see section 30(3) and (4) for details of where section 29 designations cease to have effect on the approval of a restricted priority qualification).

### **Section 15: Power to make arrangements for development of restricted priority qualification**

35. This section gives Qualifications Wales the power to enter into arrangements with an awarding body for the body to develop a new form of a restricted priority qualification. Qualifications Wales may wish to do this, if, for example, there is a need to address a particular requirement of the curriculum in Wales – or if there is a gap in the market in relation to employment skills that are important for Wales. Those arrangements are with a view to its subsequent submission to Qualifications Wales for approval and Qualifications Wales must apply its approval criteria under section 20. Qualifications Wales must publish a scheme that sets out the procedure for making such arrangements and the procedure must be open, fair and transparent. This is to ensure that there is an open, fair and transparent competition to select the awarding body. Qualifications Wales must exercise its functions in accordance with the scheme and may revise the scheme from time to time. An awarding body need not be recognised in order to enter into arrangements under this section (although it will need to be recognised in order to apply for approval under section 16).
36. Qualifications Wales will be able to specify requirements ('criteria') for the form of qualification that is to be developed. Qualifications Wales will also be able, if it chooses, to make payments to the awarding body(ies) for the work that the awarding body(ies) undertakes/undertake under these arrangements. Payment, however, need not necessarily be required.

**Adran 16: Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a ddatblygir yn unol â threfniadau adran 15**

37. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i gymeradwyo ffurfiau ar gymwysterau sydd wedi eu datblygu o ganlyniad i'r trefniadau a nodir yn adran 15. Caiff cyrff dyfarnu sydd wedi eu dethol o dan y weithdrefn a nodir yn adran 15 ac sydd wedi eu cydnabod gyflwyno ffurf ar gymhwyster, y maent wedi ei datblygu wedi iddynt gael eu dethol, i Gymwysterau Cymru i'w chymeradwyo. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ystyried a phenderfynu pa un ai i gymeradwyo'r ffurf hon ar gymhwyster ai peidio ac wrth wneud hynny, bydd yn cymhwyso ei feini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 20. Rhaid bodloni unrhyw ofynion sylfaenol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu pennu (gweler adran 21), sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn, cyn y caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r ffurf ar y cymhwyster. Dim ond am gyfnod cyfyngedig y caniateir i gymeradwyaeth o dan yr adran hon gael ei rhoi (gweler adran 23(1)).

**Adran 17: Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig yn absenoldeb trefniadau adran 15**

38. Mae'r adran hon yn darparu camau gweithredu amgen (i'r hyn a nodir yn adran 15) er mwyn i Gymwysterau Cymru benderfynu pa un ai i gymeradwyo ffurf ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig ai peidio.
39. Pan fo Cymwysterau Cymru yn dewis peidio â dilyn y llwybr o ddethol corff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig o dan adran 15, caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo ffurfiau ar y cymwysterau cyfyngedig a gyflwynir iddo gan gyrff cydnabyddedig. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi cynllun ynghylch gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth iddo o dan yr adran hon, a'r ffordd y mae'n ystyried y ceisiadau hynny. Pan fydd cymwysterau Cymru yn cael cais i gymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig nad yw wedi ei gomisiynu ganddo o dan adran 15, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried y cais yn unol â'i gynllun. Rhaid i'r cynllun nodi gweithdrefn agored, deg a thryloyw. Unwaith eto, gwneir hyn er mwyn sicrhau proses gystadleuol, sy'n cyflawni'r nodweddiad hynny, i ddethol y ffurf/ffurfiau a gymeradwywyd ar y cymhwyster. Caiff Cymwysterau Cymru ddiwygio'r cynllun o bryd i'w gilydd.
40. Rhaid i Gymwysterau Cymru gymhwyso ei feini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 20 wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a gyflwynir iddo ai peidio. Yn ogystal, rhaid bodloni unrhyw ofynion sylfaenol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu pennu o dan adran 21 ac sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn, cyn y caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r ffurf ar y cymhwyster. Dim ond am gyfnod cyfyngedig y caniateir i gymeradwyaeth o dan yr adran hon gael ei rhoi (gweler adran 23(1)).

**Adran 18: Cymeradwyo cymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig**

41. Pan na fo cymhwyster ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol yn gyfyngedig, caiff unrhyw gorff dyfarnu a gydnabyddir yn briodol gyflwyno ffurf ar y cymhwyster hwn i Gymwysterau Cymru i'w chymeradwyo.

**Section 16: Approval of a restricted priority qualification developed in accordance with section 15 arrangements**

37. This section gives Qualifications Wales the power to approve forms of qualifications that have been developed as a consequence of the arrangements set out in section 15. Awarding bodies which have been selected under the procedure set out in section 15 and which are recognised, may submit a form of qualification, which they have developed following their selection, to Qualifications Wales for approval. This section requires Qualifications Wales to consider and decide whether to approve, or not approve, this form of qualification and in doing so, it will apply its criteria published under section 20. Any minimum requirements that the Welsh Ministers have specified (see section 21), which are relevant to this qualification, must be met before Qualifications Wales may approve the form of the qualification. An approval under this section may only be granted for a limited period (see section 23(1)).

**Section 17: Approval of a restricted priority qualification in the absence of section 15 arrangements**

38. This section provides an alternative course of action (to that set out in section 15) for Qualifications Wales to decide whether or not to approve a form of a restricted priority qualification.
39. Where Qualifications Wales opts not to follow the route of selecting an awarding body to develop a restricted priority qualification under section 15, Qualifications Wales may approve forms of the restricted qualification submitted to it by recognised bodies. Qualifications Wales must publish a scheme about the making of applications for approval to it under this section, and its consideration of those applications. When Qualifications Wales receives an application to approve a restricted priority qualification that has not been commissioned by it under section 15, Qualifications Wales must consider the application in accordance with its scheme. The scheme must set out an open, fair and transparent procedure. Again, this is to ensure a competitive process, which meets those characteristics, to select the approved form(s) of the qualification. Qualifications Wales may revise the scheme from time to time.
40. Qualifications Wales must apply its criteria published under section 20 in deciding whether or not to approve a restricted priority qualification submitted to it. In addition, any minimum requirements that the Welsh Ministers have specified under section 21 and which are relevant to this qualification, must be met before Qualifications Wales may approve the form of the qualification. An approval under this section may only be granted for a limited period (see section 23(1)).

**Section 18: Approval of unrestricted priority qualifications**

41. Where a qualification on the priority qualifications list is not restricted, any appropriately recognised awarding body may submit a form of this qualification to Qualifications Wales for approval.

42. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i ystyried pa un ai i gymeradwyo ffurfiau ar gymhwyster sydd ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol ac y mae cais am gymeradwyaeth wedi ei wneud mewn cysylltiad â hwy. Wrth ystyried cymhwyster blaenoriaethol anghyfyngedig i'w gymeradwyo, rhaid i Gymwysterau Cymru gymhwyso ei feini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 20.
43. Wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo ai peidio, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried pa un a ymdriniwyd ag unrhyw ofynion sylfaenol perthnasol a bennwyd gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth - gweler adran 21) gan unrhyw ffurf ar y cymhwyster y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ei chymeradwyo. Os na fodlonwyd amodau o'r fath, yna rhaid i Gymwysterau Cymru beidio â chymeradwyo'r ffurf honno ar y cymhwyster. Caniateir i'r cymeradwyaethau i gymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig fod am gyfnod cyfyngedig neu am gyfnod amhenodol, fel a bennir gan Gymwysterau Cymru (gweler adran 23(2)).

#### **Adran 19: Cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol**

44. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i ddewis pa un ai i ystyried ai peidio, i'w cymeradwyo, ffurfiau ar gymhwyster nad ydynt wedi eu rhestru ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol. Mae'n sefydlu gwahaniaeth rhwng ceisiadau am gymeradwyaeth i ffurfiau ar gymhwyster ar y rhestr (y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried, neu y mae rhaid iddo eu hystyried yn unol â'i gynllun (adrannau 16 - 18)) a cheisiadau am gymeradwyaeth i ffurfiau ar gymhwyster nad ydynt ar y rhestr (y caiff Cymwysterau Cymru eu hystyried).
45. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r ffactorau y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu pa un ai i ystyried ceisiadau am gymeradwyaeth i ffurfiau ar gymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol. O ganlyniad, bydd cyrff dyfarnu a phartïon eraill â chanddynt fuddiant yn ymwybodol o broses Cymwysterau Cymru wrth iddo fynd ati i wneud penderfyniad a gellir gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw.
46. Os yw Cymwysterau Cymru yn penderfynu ystyried ffurf ar gymhwyster nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol i'w gymeradwyo, rhaid i unrhyw ofynion sylfaenol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu pennu (gweler adran 21), ac sy'n berthnasol i'r cymhwyster, gael eu bodloni cyn y caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r ffurf ar y cymhwyster. Rhaid i Gymwysterau Cymru gymhwyso ei feini prawf (gweler adran 20) wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo'r ffurf ar y cymhwyster. Caniateir i'r cymeradwyaethau i ffurfiau ar gymhwyster nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol fod am gyfnod cyfyngedig neu am gyfnod amhenodol, fel a bennir gan Gymwysterau Cymru (gweler adran 23(2)).

#### **Adran 20: Meini prawf cymeradwyo**

47. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi'r meini prawf y mae'n eu ddefnyddio i benderfynu pa un ai i gymeradwyo ffurf ar gymhwyster ai peidio. Caniateir amrywiaeth o feini prawf gwahanol - er enghraifft, ar gyfer disgrifiadau gwahanol o gymwysterau megis 'pob TGAU' neu ar gyfer 'pob cymhwyster pan fo perfformiad yn cael ei arsylwi mewn amgylchedd gwaith', neu'n fwy penodol ar gyfer 'Ffrangeg Safon Uwch'.



42. This section places a duty on Qualifications Wales to consider whether to approve forms of qualification which are on the priority qualifications list and in respect of which an application for approval has been made. In considering an unrestricted priority qualification for approval, Qualifications Wales must apply its criteria published under section 20.
43. In making a decision to approve, or not approve, Qualifications Wales has to consider whether any relevant minimum requirements specified by the Welsh Ministers (in relation to knowledge, skills and understanding -see section 21) have been addressed by any form of the qualification that Qualifications Wales intends to approve. If such conditions have not been met, then Qualifications Wales must not approve that form of the qualification. Approvals of unrestricted priority qualifications may be for a limited or indefinite period, as specified by Qualifications Wales (see section 23(2)).

### **Section 19: Approval of qualifications that are not priority qualifications**

44. This section gives Qualifications Wales the power to choose whether or not to consider for approval forms of qualification that are not listed on the priority qualifications list. It establishes a difference between applications for approval of forms of qualification on the list (which Qualifications Wales must consider, or must consider in accordance with its scheme (sections 16 - 18)) and applications for approval of forms of qualification not on the list (which Qualifications Wales may consider).
45. Qualifications Wales must publish a scheme setting out the factors it is likely to take into account in determining whether to consider applications for approval of forms of non-priority qualifications. As a result, awarding bodies and other interested parties will be aware of Qualifications Wales's approach to the decision-making process and decisions can be made in a transparent way.
46. If Qualifications Wales does decide to consider a form of a non-priority qualification for approval, any minimum requirements that the Welsh Ministers have specified (see section 21), and which are relevant to the qualification, must be met before Qualifications Wales may approve the form of the qualification. Qualifications Wales must apply its criteria (see section 20) in deciding whether to approve the form of the qualification. Approvals of forms of a non-priority qualification may be limited or for an indefinite period, as specified by Qualifications Wales (see section 23(2)).

### **Section 20: Approval criteria**

47. This section requires Qualifications Wales to publish the criteria it uses to decide whether or not to approve a form of qualification. There may be a range of different criteria - for example, for different descriptions of qualifications such as 'all GCSEs' or for 'all qualifications where performance is observed in a work environment' or, more specifically, for 'A level French'.

48. Mae pŵer Cymwysterau Cymru o dan adran 20 yn ddigon eang i alluogi i feini prawf cymeradwyo nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol penodol (ac, yn benodol, cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig) ynghyd â gofynion sy'n ymwneud â'r gofynion asesu. Wrth ystyried beth sy'n briodol i gyflawni ei brif nodau o dan adran 3, gallai Cymwysterau Cymru hefyd ymgysylltu, er enghraifft, â chyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau i sicrhau bod y meini prawf yn adlewyrchu eu gofynion rhesymol yn briodol.

### **Adran 21: Pŵer i bennu gofynion sylfaenol**

49. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi gofynion ar gyfer cymhwyster mewn perthynas â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth ('cynnwys pwnc' i bob pwrpas) y mae'n ofynnol i'r ffurfiau a gymeradwywyd ar y cymhwyster hwnnw ymdrin â hwy.
50. Caiff Cymwysterau Cymru bennu gofynion cynnwys ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol drwy'r meini prawf cymeradwyo a chaiff hyn fynd i'r afael ag unrhyw ofynion o'r fath sydd gan Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, rhagwelir ei bod yn annhebygol y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio ac eithrio mewn sefyllfa pan nad oes dewis arall pe bai Cymwysterau Cymru, ym marn Gweinidogion Cymru, yn methu â sicrhau bod meini prawf cymeradwyo yn mynd i'r afael â'r gofynion o ran cynnwys yn ddigonol. Felly bydd Gweinidogion Cymru yn gallu ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru sicrhau bod gofynion penodol wedi eu bodloni pan fo Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer cwrs sy'n arwain at y cymhwyster yn briodol at anghenion rhesymol y dysgwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs. Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion o dan Ddeddf Addysg 2002.
51. Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae'r amodau hyn yn sicrhau mai dim ond gyda'r diben o sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cwricwlwm priodol y caiff y rheoliadau eu cyflwyno. Nid oes angen i hyn fod yn unrhyw 'cwricwlwm cenedlaethol' sydd wedi ei gyhoeddi o reidrwydd ond rhaid i'r gofynion a nodir mewn rheoliadau ymwneud â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae rhaid i'r dysgwr eu dangos at ddiben penderfynu a yw'r cymhwyster i gael ei ddyfarnu i berson. Cyn pennu gofynion sylfaenol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chymwysterau Cymru ac eraill, fel y bo'n briodol, gan roi resymau dros gynnig pennu gofynion sylfaenol.
52. Effaith cyflwyno gofynion sylfaenol yw na chaiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo ffurf ar y cymhwyster hwnnw oni bai ei fod wedi ei fodloni bod y cymhwyster yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Rhaid i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gallant gael eu gwneud a dod i rym (gweler adran 55(2)).

48. Qualifications Wales's power under section 20 is broad enough to enable approval criteria to set out the knowledge, skills and understanding required in certain priority qualifications (and, in particular, restricted priority qualifications) as well as requirements relating to the assessment requirements. In considering what is appropriate to achieve its principal aims under section 3, Qualifications Wales might also engage with, for example, employers, higher education institutions and the professions to ensure that the criteria appropriately reflect their reasonable requirements.

### **Section 21: Power to specify minimum requirements**

49. This section gives the Welsh Ministers the power to make regulations that set out requirements for a qualification in relation to the knowledge, skills and understanding (essentially the 'subject content') that are required to be addressed by approved forms of that qualification.
50. Qualifications Wales may specify content requirements for priority qualifications through the approval criteria and this may address any such requirements of the Welsh Ministers. In practice, it is envisaged that the power is unlikely to be used other than as a last resort in the event that Qualifications Wales should, in the view of the Welsh Ministers, fail to ensure that approval criteria address content requirements sufficiently. The Welsh Ministers will therefore be able to require that Qualifications Wales ensures that specific requirements are met where the Welsh Ministers think it necessary to ensure that the curriculum for a course leading to the qualification is appropriate for the reasonable needs of learners taking the course. This power reflects the Welsh Ministers' responsibilities in relation to the curriculum for schools under the Education Act 2002.
51. The Act sets out a number of conditions which must be met before the Welsh Ministers may make regulations. These conditions ensure that the regulations are only introduced with the purpose of ensuring that learners follow an appropriate curriculum. This need not necessarily be any published 'national curriculum' but the requirements set out in regulations must relate to the knowledge, skills and understanding that the learner must demonstrate for the purpose of determining whether a person is to be awarded the qualification. Before specifying minimum requirements, the Welsh Ministers must consult Qualifications Wales and others, as appropriate, giving reasons for proposing to specify minimum requirements.
52. The effect of introducing minimum requirements is that Qualifications Wales may not approve a form of that qualification unless it is satisfied that the qualification complies with the requirements set out in the regulations. The draft regulations must be approved by the National Assembly for Wales before they can be made and come into force (see section 55(2)).

**Adran 22: Amodau cymeradwyo**

53. Mae unrhyw gymeradwyaeth gan Gymwysterau Cymru i ffurf ar gymhwyster yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffurf ar gymhwyster gael ei nodi â rhif cymeradwyo er mwyn iddi gael ei dyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi cyfeirnod unigryw i bob ffurf ar gymhwyster y maen ei chymeradwyo. Dim ond os dyfernir y rhif hwnnw i'r ffurf ar gymhwyster yn unol â'r amod y caiff y ffurf ar gymhwyster ei dyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd. Bydd hyn yn gwahaniaethu rhwng dyfarnu ffurf a gymeradwywyd ar gymhwyster a dyfarnu unrhyw ffurfiau tebyg ar gymhwyster nad ydynt wedi eu cymeradwyo.
54. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r disgresiwn i Gymwysterau Cymru i gymhwyso amodau pellach wrth iddo gymeradwyo ffurfiau ar gymwysterau - naill ai ar yr adeg y maen cymwysterau yn cael eu cymeradwyo, neu'n ddiweddarach. Caiff yr amodau cymeradwyo, er enghraifft, ymwneud â'r amgylchiadau pan ddyfernir cymhwyster, neu'r personau y dyfernir y cymhwyster iddynt. Er enghraifft, gall amod atal y ffurf a gymeradwywyd ar y cymhwyster rhag cael ei dyfarnu i ddysgwyr o dan 18 oed. Os yw Cymwysterau Cymru yn newid amodau cymeradwyo ar ôl i gymhwyster gael ei gymeradwyo (neu'n cyflwyno rhai newydd sy'n gymwys i gymhwyster a gymeradwywyd) rhaid iddo hysbysu'r cyrff dyfarnu am y newid, y dyddiad y bydd yn cael effaith a'r rhesymau dros y newid. Mae hyn er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod cyrff dyfarnu yn cael amser rhesymol i ddiwygio eu cymwysterau, os yw'n briodol, er mwyn ymdrin â'r amodau newydd neu i ofyn i'r amodau newydd neu'r amrywiadau gael eu cymhwyso iddynt mewn ffordd wahanol. Mewn achos o fethu â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo, caiff Cymwysterau Cymru arfer ei bŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl o dan adran 27 neu ei bwerau gorfodi o dan Ran 7 neu ei bŵer i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl o dan baragraff 19(2) o Atodlen 3.

**Adran 23: Cyfnod para'r gymeradwyaeth**

55. Rhaid i gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig gael eu cymeradwyo am gyfnod cyfyngedig fel y caniateir i gyrff dyfarnu eraill gystadlu i fod yn ddarparwr cymhwyster cyfyngedig ar gyfer pob cyfnod cyfyngedig.
56. Caniateir i gymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig a chymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol gael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol neu am gyfnod cyfyngedig. Pan fo cymeradwyaeth yn cael ei rhoi am gyfnod cyfyngedig, rhaid gwneud hyn yn glir pan fydd y gymeradwyaeth yn cael ei rhoi - a phan ddigwydd hyn, maen gymeradwyaeth yn peidio â bod ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. I gael manylion am y modd y caniateir i gymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl neu ei hildio, gweler y nodiadau ar gyfer adrannau 25 i 28. Rhagwelir ei bod yn debygol y bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi, ar ei gronfa ddata ar-lein, fanylion am yr holl gymwysterau a gymeradwywyd a'r manylion ynghylch pa bryd y mae pob cymeradwyaeth yn cael effaith.

## **Section 22: Conditions of approval**

53. Any approval by Qualifications Wales of a form of qualification is subject to a condition requiring the form of qualification to be identified by an approval number in order for it to be awarded as approved. Qualifications Wales will give each form of qualification it approves a unique reference number. The form of qualification is awarded as approved only if awarded with that number in accordance with the condition. This will differentiate between the award of an approved form of qualification and the award of any similar forms of qualification that are not approved.
54. This section also gives Qualifications Wales the discretion to apply further conditions to its approval of forms of qualifications – either at the time that the qualifications are approved, or later. The conditions of approval may, for example, relate to the circumstances in which a qualification is awarded, or the persons to whom it is awarded. For example, a condition may prevent the award of the approved form of the qualification to learners under the age of 18. If Qualifications Wales changes the conditions of approval after a qualification has been approved (or introduces new ones that apply to an approved qualification) it has to give notice to the awarding body of the change, the date it will come into effect and the reasons for the change. This is to ensure, for example, that awarding bodies have a reasonable time in which to amend their qualifications, if appropriate, to address the new conditions or to request that the new conditions or variations are applied to them in a different way. In the event of a failure to comply with the approval conditions, Qualifications Wales may exercise its power to withdraw approval under section 27 or its powers of enforcement under Part 7 or its power to withdraw recognition under paragraph 19(2) of Schedule 3.

## **Section 23: Duration of approval**

55. Approval of restricted priority qualifications must be granted for a limited period so that other awarding bodies may compete to be the provider of a restricted qualification for each limited period.
56. Approval of non-restricted priority qualifications and of non-priority qualifications may be indefinite or for a limited period. Where approval is for a limited period, this has to be made clear at the point of approval – and where this is the case, approval ceases at the end of that period. For details of how approval may be withdrawn or surrendered, please see the notes for sections 25 to 28. It is envisaged that Qualifications Wales is likely to publish, on its online database, information on all approved qualifications and the details of when each approval has effect.

**Adran 24: Rheolau ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth**

57. Rhaid i Gymwysterau Cymru wneud a chyhoeddi rheolau am y modd y mae ceisiadau am gymeradwyaeth yn cael eu gwneud, a chânt gwmpasu'r hyn y dylai ceisiadau o'r fath ei gynnwys ac a oes rhaid talu unrhyw ffi a sut i wneud hynny (ar yr amod bod ffi o'r fath wedi ei chynnwys mewn cynllun cyhoeddedig a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 49). Caiff y rheolau wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol – er enghraifft gall fod rheolau penodol sy'n gymwys i geisiadau am gymeradwyaeth i gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig ond nad ydynt yn gymwys i fathau eraill o gymwysterau blaenoriaethol.

**Adran 25: Ildio cymeradwyaeth**

58. Caniateir i gorff dyfarnu roi hysbysiad ildio i Gymwysterau Cymru sy'n gofyn iddo ddileu ei gymeradwyaeth i un neu ragor o ffurfiau ar gymhwyster. Rhaid i'r hysbysiad ildio bennu'r dyddiad y mae'r corff dyfarnu yn dymuno i'r gymeradwyaeth ddod i ben. Rhaid i Gymwysterau Cymru weithredu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wrth gydnabod cais o'r fath. Yn y gydnabyddiaeth honno, caiff Cymwysterau Cymru ei gwneud yn ofynnol i gymeradwyaeth ddod i ben ar ddyddiad gwahanol i'r hyn a awgrymwyd gan y corff dyfarnu, a rhaid iddo roi resymau dros benderfynu bod y gymeradwyaeth yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw. Wrth benderfynu a ddylid cadw'r dyddiad a bennwyd gan y corff dyfarnu neu a ddylid gosod dyddiad gwahanol, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r angen i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr (er enghraifft, y rheini sydd eisoes ar gwrs sy'n arwain at y cymhwyster o dan sylw) ac i ddymuniad y corff dyfarnu i'r gymeradwyaeth ddod i ben ar y dyddiad y mae wedi ei bennu.

**Adran 26: Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad ag ildio cymeradwyaeth**

59. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r gydnabyddiaeth o ildio a roddir gan Gymwysterau Cymru o dan adran 25 ddarparu ar gyfer cyfnod estyn ar ôl y dyddiad ildio tan ddyddiad diweddarach (y dyddiad estyn). Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r ffurf ar y cymhwyster yn parhau i gael ei thrin fel un sydd wedi ei chymeradwyo, ond dim ond at y dibenion a bennir yn y gydnabyddiaeth o ildio. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr y mae modd gwneud hyn – er enghraifft i roi cyfle i ddysgwyr i ailsefyll y cymhwyster. Mae “dyddiad ildio” a “dyddiad estyn” wedi eu diffinio yn yr adran hon.

**Adran 27: Tynnu cymeradwyaeth yn ôl**

60. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i roi terfyn ar ei gymeradwyaeth i ffurf ar gymhwyster drwy dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl. Y rhesymau dros dynnu cymeradwyaeth yn ôl yw bod Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni:

- a) nad yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio ag amod cymeradwyo (o dan adran 22). Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw'r corff dyfarnu yn methu â chydymffurfio â'r amodau a nodwyd ar adeg rhoi'r gymeradwyaeth neu'n eu hepgor, neu os yw'r amodau cymeradwyo (megis gofynion gwybodaeth) yn newid a bod y cymhwyster yn peidio â chydymffurfio â'r amodau mwyach (yn yr achos hwn gallai corff dyfarnu fwriadu cyflwyno ffurf ar gymhwyster yn ei lle i'w chymeradwyo);

#### **Section 24: Rules about applications for approval**

57. Qualifications Wales must make and publish rules about how applications for approval are made, which may cover what such applications should contain and whether and how any fee must be paid (providing such a fee has been included in a published scheme approved by the Welsh Ministers under section 49). The rules may make different provisions for different purposes – for example there may be particular rules that apply to applications for the approval of restricted priority qualifications and not to other types of priority qualifications.

#### **Section 25: Surrender of approval**

58. An awarding body may give Qualifications Wales a surrender notice asking it to remove its approval of one or more forms of qualification. The surrender notice must specify the date on which the awarding body wishes the approval to end. Qualifications Wales must act as soon as reasonably practicable in acknowledging such an application. In that acknowledgement, Qualifications Wales may require approval to cease on a different date to that suggested by the awarding body, and must give reasons for the approval to cease on that date. In deciding whether to keep the date specified by the awarding body or set a different date, Qualifications Wales must have regard to the need to avoid prejudice to learners (for example those already on a course leading to the qualification concerned) and to the awarding body's wish for it to end on the date it has specified.

#### **Section 26: Transitional provision in connection with surrender of approval**

59. This section allows the acknowledgement of surrender given by Qualifications Wales under section 25 to provide for an extension period after the surrender date until a later date (the extension date). During that period, the form of the qualification continues to be treated as approved, but only for the purposes specified in the acknowledgement of surrender. This can only be done if Qualifications Wales considers it appropriate to avoid prejudicing learners – for example to provide an opportunity for learners to resit the qualification. “Surrender date” and “extension date” are both defined in this section.

#### **Section 27: Withdrawal of approval**

60. This section enables Qualifications Wales to end its approval of a form of qualification by withdrawing the approval. The reasons for withdrawing approval are that Qualifications Wales is satisfied:
- a) that the awarding body has not complied with a condition of approval (under section 22). This could happen for example, if the awarding body fails or omits to comply with conditions set at the time of approval or if the conditions of approval (such as knowledge requirements) change and the qualification ceases to comply with the conditions (in this case an awarding body might intend to submit a replacement form of qualification for approval);

- b) nad yw'r corff dyfarnu sy'n cynnig y ffurf honno ar gymhwyster yn cael ei gydnabod mwyach yn gorff dyfarnu gan Gymwysterau Cymru (mewn cysylltiad â'r ffurf honno ar gymhwyster). Mae cydnabyddiaeth yn peidio â chael effaith o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 192) o Atodlen 3;
  - c) bod y cymhwyster o dan sylw wedi dod yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig yn unol â phenderfyniad o dan adran 14 (bydd Cymwysterau Cymru wedi ymgynghori â chyrff cydnabyddedig ac eraill cyn i hynny ddigwydd).
61. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y mae rhaid i Gymwysterau Cymru ei wneud cyn y gall dynnu cymeradwyaeth yn ôl. Rhaid i Gymwysterau Cymru:
- a) hysbysu'r corff dyfarnu am fwriad Cymwysterau Cymru i ddyroddi hysbysiad tynnu'n ôl, gan esbonio pam y mae'n bwriadu tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl a pha bryd y mae'n bwriadu gwneud y penderfyniad;  
a
  - b) ystyried unrhyw ymateb a ddarparwyd gan y corff dyfarnu.
62. Os yw Cymwysterau Cymru wedyn yn penderfynu tynnu cymeradwyaeth yn ôl, rhaid iddo hysbysu'r corff dyfarnu, gan bennu'r dyddiad y mae'r gymeradwyaeth i gael ei thynnu'n ôl. Rhoddir hefyd y pŵer i Gymwysterau Cymru i amrywio'r dyddiad tynnu'n ôl, ar yr amod bod y corff dyfarnu yn cydsynio i'r amrywiad hwnnw. Gallai amrywiad alluogi Cymwysterau Cymru i ystyried yr amser y mae ei angen i ddatblygu cymwysterau yn lle'r cymwysterau sy'n bodoli ac i estyn yr amser hwnnw os oes oedi, er enghraifft.
63. Wrth benderfynu ar ddyddiad i dynnu cymeradwyaeth yn ôl neu ar amrywiad i'r dyddiad hwnnw, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r angen i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr, megis y rheini sydd eisoes yn dilyn cwrs sy'n arwain at y cymhwyster o dan sylw.

**Adran 28: Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad a thynnu cymeradwyaeth yn ôl**

64. Caiff Cymwysterau Cymru wneud trefniadau i barhau i drin ffurf ar gymhwyster, y mae'r gymeradwyaeth iddi wedi ei thynnu'n ôl, fel pe bai wedi ei chymeradwyo, am amser penodedig ac at ddibenion penodedig, er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr - er enghraifft, er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr i ailsefyll y cymhwyster. Mae'r ddarpariaeth hon yn debyg i'r ddarpariaeth drosiannol y caniateir iddi gael ei gwneud mewn cysylltiad ag ildio cymeradwyaeth, fel y'i disgrifir yn y nodiadau ar gyfer adran 26.

**RHAN 5:DYNODI CYMWYSTERAU ERAILL**

65. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion a nodir yn adran 54(2) (cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol). Gweler hefyd adran 47 o ran y gofyniad i Gymwysterau Cymru lunio datganiad o'i bolisi mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Rhan hon.



- b) that the awarding body offering that form of qualification is no longer recognised as an awarding body by Qualifications Wales (in respect of that form of qualification). Recognition ceases to have effect in the circumstances set out in paragraph 1(2) of Schedule 3;
  - c) that the qualification concerned has become a restricted priority qualification in accordance with a determination under section 14 (before which Qualifications Wales will have consulted recognised bodies and others).
61. The section sets out what Qualifications Wales must do before it can withdraw approval. Qualifications Wales must:
- a) give notice to the awarding body of Qualification Wales's intention to issue a notice of withdrawal, explaining why the withdrawal is proposed and when it proposes to make the decision; and
  - b) take account of any response provided by the awarding body.
62. If Qualifications Wales then decides to withdraw approval, it must notify the awarding body, specifying the date that withdrawal will take effect. Qualifications Wales is also given the power to vary the date of the withdrawal, providing the awarding body consents to that variation. Variation could enable Qualifications Wales to take account of the time needed to develop qualifications to replace the existing qualifications and to extend that time if there are delays, for example.
63. When determining a date for withdrawal or variation of that date, Qualifications Wales must have regard to the need to avoid prejudice to learners, such as those already following a course leading to the qualification in question.

### **Section 28: Transitional provision in connection with withdrawal of approval**

64. Qualifications Wales may make arrangements to continue treating a form of a qualification, approval of which has been withdrawn, as if it is approved, for a specified time and for specified purposes, in order to avoid prejudice to learners – for example, in order to provide an opportunity for learners to resit the qualification. This provision is similar to the transitional provision that may be made in connection with the surrender of approval, as described in the notes for section 26.

## **PART 5: DESIGNATION OF OTHER QUALIFICATIONS**

65. In exercising its functions under this Part Qualifications Wales must have regard to the principles set out in section 54(2) (performance of regulatory activities). See also section 47 as to the requirement for Qualifications Wales to prepare a statement of its policy in relation to its functions under this Part.

### **Adran 29: Dynodi cymwysterau eraill**

66. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddynodi ffurf ar gymhwyster fel bo'r cymhwyster dynodedig yn gymwys i gael ei ddarparu ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 oed. Caiff corff cydnabyddedig wneud cais am ddynodiad mewn cysylltiad â ffurf ar gymhwyster y mae'n ei chynnig ac y mae wedi ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru mewn cysylltiad â hi. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adran (4) wedi eu bodloni y caiff wneud dynodiad. Mae'r amodau yn ymwneud â phriodoldeb defnyddio'r ffurf ar gymhwyster ar gwrs sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus a phriodoldeb dynodi'r ffurf ar gymhwyster yn hytrach na'i chymeradwyo. Bwriad y gallu i ddynodi ffurfiau ar gymwysterau yw helpu'r broses o drosglwyddo'r cymwysterau o'r gyfundrefn reoleiddiol flaenorol i gyfundrefn Cymwysterau Cymru, gan alluogi Cymwysterau Cymru ei hun i ystyried a barnu pa gymwysterau y dylid eu cymeradwyo - ac eithrio unrhyw un neu ragor y caniateir iddynt gael eu trosglwyddo iddo fel rhai sydd wedi eu cymeradwyo (o dan bwerau i wneud darpariaeth drosiannol yn Rhan 9). Bydd hefyd yn galluogi Cymwysterau Cymru i ganiatáu neu barhau i ganiatáu i gyrsiau sy'n arwain at ffurfiau penodol ar gymhwyster gael eu cyllido'n gyhoeddus lle bo hynny'n briodol, er mwyn osgoi bylchau yn y ddarpariaeth a gyllidir yn gyhoeddus pe bai rhai cymwysterau yn peidio â chael eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo. Caiff Cymwysterau Cymru ddynodi ffurfiau ar gymwysterau fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gwrs addysg neu hyfforddiant penodol (er enghraifft, i'w defnyddio ar raglenni prentisiaeth penodol) neu fel rhai sy'n gymwys i gael eu cyllido ar gyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 oed yn fwy cyffredinol.

### **Adran 30: Darpariaeth bellach ynghylch dynodiadau adran 29**

67. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol cael terfyn amser ar gyfer dynodiadau o dan adran 29: ar yr adeg y mae'n gwneud dynodiad mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru bennu'r dyddiad y bydd y dynodiad yn dechrau ac yn dod i ben. Bydd dynodiad hefyd yn peidio â chael effaith yn gynt o dan yr amgylchiadau a ganlyn (ac yn yr achosion hyn rhaid i Gymwysterau Cymru hysbysu'r corff dyfarnu am y dyddiad y mae'r dynodiad yn peidio â chael effaith):

- os yw cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn dod i ben mewn cysylltiad â'r ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei dynodi (felly mae'r dynodiad yn peidio â chael effaith ar yr un pryd ag y mae'r gydnabyddiaeth yn peidio â chael effaith);
- os yw'r ffurf ar gymhwyster a ddynodwyd yn cael ei chymeradwyo o dan Ran 4, o'r dyddiad y mae'n dod yn gymhwyster a gymeradwywyd - er y caiff Cymwysterau Cymru wneud trefniadau trosiannol o dan adran 31 i drin y cymhwyster fel pe bai wedi ei gymeradwyo at ddibenion penodedig am gyfnod estynedig o amser er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr; ac
- o'r adeg pan gaiff ffurf ar y cymhwyster ei chymeradwyo fel cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig - er y caiff Cymwysterau Cymru, unwaith eto, wneud trefniadau trosiannol o dan adran 31.

### **Section 29: Designation of other qualifications**

66. This section enables Qualifications Wales to designate a form of qualification so that the designated qualification is eligible to be provided on publicly funded courses of education or training for learners under the age of 19. A recognised body may apply for designation in respect of a form of qualification it offers and in respect of which it is recognised by Qualifications Wales. Qualifications Wales can only make a designation if it is satisfied that the conditions in subsection (4) are met. The conditions relate to the appropriateness of the form of qualification being used on a publicly funded course and to the appropriateness of the form of qualification being designated rather than approved. The ability to designate forms of qualifications is intended to assist in the transition of qualifications from the previous regulatory regime into that of Qualifications Wales, enabling Qualifications Wales itself to consider and judge which qualifications should be approved – other than any which may be transferred to it as approved (under powers to make transitional provision in Part 9). It will also enable Qualifications Wales to allow or continue to allow the public funding of courses leading to particular forms of qualification where appropriate, so as to avoid gaps in publicly funded provision arising should some qualifications not be submitted for approval. Qualifications Wales may designate forms of qualifications as being eligible for use on a specific course of education or training (for example, for use on certain apprenticeship programmes) or as being eligible for funding on courses for learners under the age of 19 more generally.

### **Section 30: Further provision about section 29 designations**

67. This section requires designations under section 29 to be time limited: at the time it makes a designation Qualifications Wales is required to specify a start and end date to the designation. A designation will also cease to have effect earlier in the following circumstances (and in these cases Qualifications Wales must notify the awarding body of the date from which it ceases to have effect):

- a) if the awarding body's recognition ceases in respect of the form of qualification that has been designated (in which case the designation ceases to have effect at the same time as the recognition ceases to have effect);
- b) if the form of designated qualification is approved under Part 4, from the date that it becomes an approved qualification – although Qualifications Wales may make transitional arrangements under section 31 to treat the qualification as approved for specified purposes for an extended period of time in order to avoid prejudice to learners; and
- c) from the point that a form of the qualification becomes approved as a restricted priority qualification – although, again, Qualifications Wales may make transitional arrangements under section 31.

68. Caiff Cymwysterau Cymru bennu'r diben y mae dynodiad yn cael effaith ato, a allai fod drwy gyfeirio at yr amgylchiadau y caniateir i gymhwyster dynodedig gael ei ddyfarnu odanynt neu'r personau y caniateir i gymhwyster dynodedig gael ei ddyfarnu iddynt. Gallai hyn alluogi Cymwysterau Cymru i ddatgan, er enghraifft, na chaniateir i'r cymhwyster gael ei gynnig i ddysgwyr sy'n iau nag unrhyw derfyn oedran isaf a osodir ar y cymhwyster gan Gymwysterau Cymru (sy'n debyg, er enghraifft, i amod sy'n cyfyngu ar ddyfarniad ar gyfer cymwysterau a gymeradwywyd - gweler adran 34(3) a (4)). Pan fo dibenion wedi eu pennu, rhaid darparu cwrs sy'n arwain at ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei dynodi mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r dibenion hynny er mwyn iddo gael ei gyllido'n gyhoeddus (adran 34(5)(b)).

### **Adran 31: Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dynodiadau adran 29**

69. Mae'r adran hon yn caniatáu i Gymwysterau Cymru ddarparu i ddynodiadau barhau i gael effaith at ddibenion cyfyngedig ar ôl iddynt beidio, fel arall, â chael effaith (oherwydd naill ai fod y gymeradwyaeth i'r ffurf ar gymhwyster yn cymryd effaith, neu oherwydd bod cymeradwyaeth i ffurf flaenoriaethol gyfyngedig ar y cymhwyster yn cymryd effaith). Caiff Cymwysterau Cymru ddarparu i'r ffurf ar y cymhwyster a ddynodwyd barhau i gael ei drin fel pe bai wedi ei dynodi at ddibenion a hyd at ddiwedd y dyddiad a bennir gan Gymwysterau Cymru. Dim ond pan fo Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud darpariaeth drosiannol at ddiben osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n ceisio cael y ffurf ar y cymhwyster y caiff wneud hynny - er enghraifft, er mwyn caniatáu i ddysgwyr gwblhau cymhwyster y maent wedi dechrau paratoi ar ei gyfer neu er mwyn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll cymhwyster.

### **Adran 32: Dirymu dynodiadau adran 29**

70. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddirymu dynodiad. Cyn gwneud hyn, rhaid iddo rhoi hysbysiad am ei fwriad i'r corff cydnabyddedig perthnasol sy'n esbonio pam y mae'n bwriadu dirymu ac sy'n datgan pa bryd y bydd yn penderfynu pa un ai i ddirymu ai peidio. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff cydnabyddedig ac, os yw'n penderfynu dirymu, rhaid iddo roi hysbysiad i'r corff cydnabyddedig am y penderfyniad a pha bryd y mae'r dirymiad i gymryd effaith. Bydd y dirymiad yn gymwys o 1 Medi yn y flwyddyn ar ôl i'r penderfyniad i ddirymu gael ei wneud a dim ond mewn cysylltiad â dysgwyr sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw y mae'n gymwys. Rhaid gwneud yr hysbysiad am ddirymiad i'r corff cydnabyddedig yn ddi-oed ond beth bynnag erbyn (neu ar) 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y caiff ei wneud. Mae hyn yn golygu y bydd gan gyrff cydnabyddedig (ac o ganlyniad darparwyr dysgu a dysgwyr) o leiaf 8 mis rhwng gwybod bod y penderfyniad i ddirymu wedi ei wneud a'r dirymiad yn cael effaith ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Rhaid i'r hysbysiad am y penderfyniad i ddirymu gael ei gyhoeddi.

68. Qualifications Wales may specify the purpose for which a designation has effect, which could be by reference to the circumstances in which, or the persons to whom, a designated qualification may be awarded. This could enable Qualifications Wales to state, for example, that the qualification must not be offered to learners younger than any lower age limit placed on the qualification by Qualifications Wales (similar to, for example, an award limitation condition for approved qualifications - see section 34(3) and (4)). Where purposes have been specified, a course that leads to a form of qualification that is designated must be provided in a way that complies with those purposes in order for it to be publicly funded (section 34(5)(b)).

### **Section 31: Transitional provision in connection with section 29 designations**

69. This section allows Qualifications Wales to provide for designations to continue to have effect for limited purposes after they have ceased, otherwise, to have effect (due either to the approval of the form of qualification taking effect, or to an approval of a restricted priority form of the qualification taking effect). Qualifications Wales may provide for the form of the qualification which was designated to continue to be treated as if it were designated for the purposes and until the end of the date specified by Qualifications Wales. This transitional provision may only be made where Qualifications Wales considers it appropriate to do so for the purpose of avoiding prejudice to learners seeking to obtain the form of the qualification - for example, to allow learners to complete a qualification for which they have started to prepare or to allow learners to resit a qualification.

### **Section 32: Revocation of section 29 designations**

70. This section enables Qualifications Wales to revoke a designation. Before doing this, it must give notice of its intention to the relevant recognised body, explaining why it is proposing to revoke and stating when it is due to decide whether or not to revoke. Qualifications Wales must have regard to any representations made by the recognised body and, if it decides to revoke, must give notice to the recognised body of the decision and of when the revocation is to take effect. The revocation will apply from 1 September in the year following the decision to revoke and only applies in respect of learners starting a course on or after that date. The notice of revocation to the recognised body must be made promptly but in any case by (or on) 31 December of the year in which it is made. This means that recognised bodies (and consequently learning providers and learners) will have at least 8 months between knowing of the decision to revoke and the revocation coming into effect at the beginning of the next academic year. The notice of revocation must be published.

### **Adran 33: Rheolau ynghylch ceisiadau am ddynodiad**

71. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru wneud a chyhoeddi rheolau am y modd y mae rhaid i geisiadau am ddynodiad gael eu gwneud. Caiff y rheolau fynd i'r afael â'r hyn y dylai ceisiadau o'r fath eu cynnwys ac a oes rhaid talu unrhyw ffi a sut i wneud hynny (ar yr amod bod ffi o'r fath wedi ei chynnwys mewn cynllun cyhoeddedig a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 49). Caiff y rheolau wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol - er enghraifft gall fod rheolau penodol sy'n gymwys i geisiadau ar gyfer dynodi cymwysterau a ddefnyddir mewn prentisiaethau.

## **RHAN 6: DARPARIAETH BELLACH SY'N BERTHNASOL I GYDNABOD, CYMERADWYO A DYNODI**

### **Adran 34: Cyfyngu ar gyllido a darparu cyrsiau penodol**

72. Mae'r adran hon yn gosod cyfyngiad ar gyllid cyhoeddus ar gyfer cyrsiau addysg neu hyfforddiant ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, os yw'r cyrsiau hynny yn arwain at gymwysterau., Dim ond os yw'r ffurfiau ar gymwysterau o dan sylw yn rhai a ddyfernir gan gorff cydnabyddedig fel y'u cymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 4 (sef, eu bod wedi eu dyfarnu â'r rhif cymeradwyo), neu os ydynt wedi eu dynodi gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 5 y caniateir i'r cyrsiau hynny gael eu cyllido gan Weinidogion Cymru, gan awdurdodau lleol neu gael eu darparu gan (neu ar ran) ysgol a gynhelir. Mewn achos pan fo ysgol a gynhelir yn darparu'r cwrs (neu fod y cwrs yn cael ei ddarparu ar ei rhan), rhaid i'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu sicrhau eu bod yn glynu wrth y cyfyngiad hwn. Mae Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn y ffordd y caiff ysgolion a gynhelir eu cynnal ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ymyrryd wrth i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau addysg. Effaith adran 57(1) o'r Ddeddf hon (sy'n darparu i'r Ddeddf hon gael ei darllen ar y cyd â Deddf Addysg 1996) ac adran 61(2) (sy'n darparu i'r Ddeddf hon fod yn un o'r Deddfau Addysg) yw y byddai'r pwerau ymyrryd hyn ar gael pe bai corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd o dan yr adran hon.
73. Mae hefyd yn ofynnol i'r cwrs gael ei ddarparu yn unol ag unrhyw amod sy'n cyfyngu ar ddyfarniad sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth (yn achos cymhwyster a gymeradwywyd), neu yn unol ag unrhyw ddibenion penodedig y mae'r dynodiad i gael effaith atynt (yn achos dynodiad). Mae is-adran (4) yn esbonio bod amod sy'n cyfyngu ar ddyfarniad yn amod cymeradwyo sy'n ymwneud â'r person neu'r disgrifiad o berson y caniateir i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu iddo - megis cyfyngiad sy'n seiliedig ar oedran dysgwyr.
74. Mae eithriad penodol i'r cyfyngiad hwn ar gyfer unrhyw gwrs sy'n cael ei ddarparu i berson sydd ag anhawster dysgu: nid yw'r eithriad hwn ond yn ymwneud â'r cwrs a ddarperir i'r person sydd ag anhawster dysgu ac nid yw'n darparu eithriad mewn perthynas â dysgwyr eraill ar y cwrs hwnnw. Yn ddibynnol ar bwerau cyllido'r corff awdurdodedig, byddai'r eithriad hwn yn ei alluogi i gyllido cyrsiau a ddarperir i unrhyw ddysgwr sydd ag anhawster dysgu pa gymhwyster bynnag y mae'r cwrs yn arwain ato a pha le bynnag y darperir y cwrs, er enghraifft pa un ai yng Nghymru neu y tu allan iddi. Mae adran 57(5) yn diffinio ystyr person ag anhawster dysgu at ddibenion y Ddeddf hon.

### **Section 33: Rules about applications for designation**

71. This section requires Qualifications Wales to make and publish rules about how applications for designation must be made. The rules may address what such applications should contain and whether and how any fee must be paid (providing such a fee has been included in a published scheme approved by the Welsh Ministers under section 49). The rules may make different provisions for different purposes – for example there may be particular rules that apply to applications for the designation of qualifications used in apprenticeships.

## **PART 6: FURTHER PROVISION RELEVANT TO RECOGNITION, APPROVAL AND DESIGNATION**

### **Section 34: Restriction on funding and provision of certain courses**

72. This section places a restriction on the public funding of courses of education or training for learners under the age of 19, if those courses lead to qualifications. Those courses can only be funded by the Welsh Ministers, by local authorities or provided by (or on behalf of) a maintained school, if the forms of qualifications concerned are awarded by a recognised body as approved by Qualifications Wales under Part 4 (that is, awarded with the approval number), or if they are designated by Qualifications Wales under Part 5. In the case of a maintained school providing the course (or the course being provided on its behalf), the local authority and the governing body must ensure that they adhere to this restriction. Part 2 of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 gives local authorities and the Welsh Ministers powers to intervene in the conduct of maintained schools and gives the Welsh Ministers powers to intervene in a local authority's exercise of its education functions. The effect of section 57(1) of this Act (which provides for this Act to be read as one with the Education Act 1996) and section 61(2) (which provides for this Act to be one of the Education Acts) is that these powers of intervention would be available in the event of a governing body or local authority failing to comply with the duty under this section.
73. It is also a requirement that the provision of the course is in accordance with any award limitation condition attaching to the approval (in the case of an approved qualification), or with any specified purposes for which the designation is to have effect (in the case of a designation). Subsection (4) explains that an award limitation condition is a condition of approval which relates to the person or description of person to whom the qualification may be awarded – such as a limitation based on the age of learners.
74. There is a specific exception to this restriction for any course provided to a person with a learning difficulty: this exception only relates to the course provided to the person with a learning difficulty and does not provide an exception in relation to other learners on that course. Dependent on the authorised body's funding powers, this exception would enable it to fund courses provided to any learner with a learning difficulty whatever qualification the course leads to and wherever the course is provided, for example whether in or outside of Wales. Section 57(5) defines what is meant by a person with a learning difficulty for the purposes of this Act.

75. Mae is-adran (8) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud eithriadau pellach i'r cyfyngiad hwn - naill ai ar gyfer rhai cyrsiau penodol neu ar gyfer amgylchiadau penodol eraill neu achosion penodol a all godi. Er enghraifft, gellid ystyried gwneud eithriad er mwyn galluogi dysgwr sydd wedi symud o ysgol yn y sector annibynnol i ysgol a gynhelir yng Nghymru i gymryd y cymhwyster y mae wedi ei baratoi ar ei gyfer. Gwneir yr eithriad gan Weinidogion Cymru drwy ddynodi'r cwrs yn ysgrifenedig.
76. Nid yw dynodiad gan Weinidogion Cymru yn sefydlu llwybr arall ar gyfer cymeradwyo cymwysterau - ei effaith yw ei bod yn bosibl y bydd cyrff awdurdodedig yn gallu cyllido cyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 oed er eu bod yn arwain at ffurf ar gymhwyster nad yw wedi ei chymeradwyo na'i dynodi gan Gymwysterau Cymru.
77. Fel arall, nid yw'r Ddeddf yn cyfyngu ar y cymwysterau y caniateir iddynt gael eu defnyddio ar gyrsiau. Er enghraifft, gallai ysgol annibynnol yng Nghymru ddarparu cyrsiau sy'n arwain at ffurfiau ar gymwysterau nad ydynt wedi eu cymeradwyo na'u dynodi gan Gymwysterau Cymru.

### **Adran 35: Dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd yng Nghymru: cyfyngu ar gymhwysio amodau a osodir gan Ofqual**

78. Mae adran 35 yn osgoi ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei dyfarnu fel pe bai wedi ei chymeradwyo gan Gymwysterau Cymru rhag cael ei rheoleiddio ar yr un pryd gan Gymwysterau Cymru ac Ofqual. Mae Ofqual yn rheoleiddiwr cymwysterau a sefydlwyd o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae swyddogaethau Ofqual yn debyg i swyddogaethau Cymwysterau Cymru. Caniateir i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Ofqual a chan Gymwysterau Cymru o dan y priod gyfundrefnau deddfwriaethol.
79. Mae adran 35 yn atal unrhyw amodau cydnabod a osodir gan Ofqual rhag bod yn gymwys i ddyfarnu ffurf ar gymhwyster yng Nghymru sydd wedi ei dyfarnu fel pe bai wedi ei chymeradwyo gan Gymwysterau Cymru. Byddai amodau cydnabod ac amodau cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn; ni fyddai amodau cydnabod Ofqual yn gymwys. Mae ystyr dyfarnu ffurf ar gymhwyster yng Nghymru wedi ei nodi yn is-adran (4) ac mae adran 57(4) hefyd yn berthnasol.



75. Subsection (8) gives the Welsh Ministers the power to make further exceptions to this restriction – either for some particular courses or for other specific circumstances or particular cases that may arise. For example, an exception might be considered to enable a learner who has moved from an independent sector school to a maintained school in Wales to take the qualification for which they had been prepared. The exception is made by Welsh Ministers designating the course in writing.
76. Designation by the Welsh Ministers does not establish an alternative route for approving qualifications – its effect is that authorised bodies may be able to fund courses for learners who are under 19 even though it leads to a form of a qualification which is neither approved nor designated by Qualifications Wales.
77. The Act does not otherwise restrict the qualifications which may be used on courses. For example, an independent school in Wales could provide courses leading to forms of qualifications which are neither approved nor designated by Qualifications Wales.

**Section 35: Award in Wales of an approved qualification: restriction on application of conditions imposed by Ofqual**

78. Section 35 avoids a form of a qualification that is awarded as approved by Qualifications Wales being regulated simultaneously by both Qualifications Wales and Ofqual. Ofqual is a regulator of qualifications established under the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009. Ofqual's functions are similar to the functions of Qualifications Wales. An awarding body may be recognised by both Ofqual and by Qualifications Wales under the respective legislative regimes.
79. Section 35 prevents any conditions of recognition imposed by Ofqual from applying to the award in Wales of a form of a qualification that is awarded as approved by Qualifications Wales. Qualifications Wales's conditions of recognition and those of approval would apply in these circumstances; Ofqual's conditions of recognition would not. The meaning of the award of a form of a qualification in Wales is set out in subsection (4) and section 57(4) is also relevant to this.

80. Caniateir i gymwysterau nad ydynt wedi eu dyfarnu fel rhai sydd wedi eu cymeradwyo ond sydd wedi eu rheoleiddio o dan amodau cydnabod Cymwysterau Cymru, gan gynnwys unrhyw gymwysterau dynodedig, gael eu rheoleiddio gan Ofqual hefyd (gweler adran 36 lle y caiff Cymwysterau Cymru reoleiddio, drwy amodau cydnabod, gymwysterau a ddyfernir yng Nghymru sydd o fewn cydnabyddiaeth y corff hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu cymeradwyo). Mae adran 35 yn sicrhau nad oes gorgyffwrdd o'r fath yn digwydd mewn perthynas â ffurfiau ar gymwysterau a ddyfernir fel rhai sydd wedi eu cymeradwyo o dan Ran 4 o'r Ddeddf; mae adrannau 57(8) a 22(4) yn esbonio beth yw'r ystyr pan fo cymhwyster wedi ei ddyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd. Nid yw adran 35 yn effeithio ar gymhwysu amodau cydnabod (os oes rhai) a osodir gan Ofqual i ddyfarnu yng Nghymru ffurfiau ar gymhwyster nad ydynt wedi eu dyfarnu fel rhai a gymeradwywyd - er enghraifft, cymwysterau dynodedig neu gymwysterau eraill nad ydynt wedi eu dyfarnu fel cymwysterau a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru a gallant, yn lle hynny, fod yn rhai y mae Ofqual yn rheoleiddio mewn perthynas â hwy.

### **Adran 36: Cyfyngu ar gymhwysu amodau a osodir gan Gymwysterau Cymru**

81. O dan adran 36, mae amodau cydnabod a osodir gan Gymwysterau Cymru ar gorff cydnabyddedig yn gymwys mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau gan y corff yng Nghymru, y mae'r corff wedi ei gydnabod mewn cysylltiad â hwy. Mae hyn yn cwmpasu pob cymhwyster o fewn ei gydnabyddiaeth, ac nid dim ond unrhyw un neu ragor a gymeradwyir o dan Ran 4 neu a ddynodir o dan adran 29. Caniateir i gyrff cydnabyddedig gael eu rheoleiddio hefyd drwy amodau cydnabod a osodir gan Ofqual (o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009) mewn cysylltiad â chymwysterau a ddyfernir yng Nghymru, ac eithrio'r ffurfiau a ddyfernir fel rhai a gymeradwywyd. Y rheswm dros hyn yw nad yw adran 35 ond yn atal amodau cydnabod Ofqual rhag bod yn gymwys mewn cysylltiad â ffurfiau ar gymwysterau a ddyfernir yng Nghymru fel rhai a gymeradwywyd.
82. Ni fydd amodau cydnabod a osodir gan Gymwysterau Cymru yn gymwys mewn perthynas â dyfarnu ffurf ar gymhwyster y tu allan i Gymru.

### **RHAN 7: GORFODI**

83. Y ffordd y bydd Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu a chymwysterau o fewn ei gylch gwaith yw drwy amodau cydnabod o dan Ran 3 ac amodau cymeradwyo o dan Ran 4. Mae pwerau gorfodi o dan y Rhan hon yn sicrhau bod camau yn gallu cael eu cymryd yn achos methiant, neu fethiant tebygol, i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau hynny. Yn ogystal, mae gan Gymwysterau Cymru y pŵer i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl (yn Atodlen 3), y pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl (yn adran 27) a'r pŵer i ddirymu dynodiad (yn adran 32). Wrth arfer y pwerau o dan y Rhan hon, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion ynghylch gweithgareddau rheoleiddiol a nodir yn adran 54(2) (cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol). Gweler hefyd adran 47 o ran y gofyniad i lunio datganiad o'i bolisi mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Rhan hon.

80. Qualifications not awarded as approved but regulated under Qualifications Wales's conditions of recognition, including any designated qualifications, may also be regulated by Ofqual (see section 36 whereby Qualifications Wales may regulate, through conditions of recognition, qualifications awarded in Wales which are within the body's recognition even if they are not approved). Section 35 ensures that such overlap does not occur in relation to forms of qualifications awarded as approved under Part 4 of the Act; sections 57(8) and 22(4) explain what is meant when a qualification is awarded as approved. Section 35 does not affect the application (if any) of conditions of recognition imposed by Ofqual to the award in Wales of forms of a qualification which are not awarded as approved – for example, designated qualifications or other qualifications which are not awarded as approved by Qualifications Wales, and may instead be ones in relation to which Ofqual regulates.

### **Section 36: Restriction on application of conditions imposed by Qualifications Wales**

81. Under section 36, conditions of recognition imposed by Qualifications Wales on a recognised body apply in relation to the body's award of qualifications in Wales, in respect of which it is recognised. This covers all qualifications within its recognition, and not just any which are approved under Part 4 or designated under section 29. Recognised bodies may also be regulated through conditions of recognition imposed by Ofqual (under the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009) in respect of qualifications awarded in Wales, other than those forms awarded as approved. This is because section 35 only prevents Ofqual's conditions of recognition from applying in respect of forms of qualifications awarded in Wales as approved.
82. Conditions of recognition imposed by Qualifications Wales will not apply in relation to the award of a form of a qualification outside of Wales.

### **PART 7: ENFORCEMENT**

83. The means by which Qualifications Wales will regulate awarding bodies and qualifications within its remit is through conditions of recognition under Part 3 and conditions of approval under Part 4. Powers of enforcement under this Part ensure that action can be taken in the event of a failure, or likely failure, to comply with any of those conditions. Qualifications Wales also has available to it the power to withdraw recognition (in Schedule 3), the power to withdraw approval (in section 27) and the power to revoke a designation (in section 32). In exercising the powers under this Part, Qualifications Wales must have regard to the principles regarding regulatory activities set out in section 54(2) (performance of regulatory activities). See also section 47 as to the requirement to prepare a statement of its policy in relation to its functions under this Part.

### **Adran 37: Pŵer i roi cyfarwyddydau**

84. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gymryd camau (neu beidio â chymryd camau), drwy ddyroddi cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r corff dyfarnu hwnnw. Dim ond pe bai Cymwysterau Cymru yn barnu bod y corff dyfarnu wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio ag un neu ragor o'r amodau cydnabod a/neu un neu ragor o'r amodau cymeradwyo, y mae'r corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddynt, y gallai cyfarwyddyd gael ei ddyroddi. Rhaid i unrhyw gamau y mae Cymwysterau Cymru yn eu gwneud yn ofynnol (neu'n eu gwahardd) drwy'r cyfarwyddyd fod at ddiben sicrhau bod y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'r amod.
85. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi hysbysiad i'r corff dyfarnu os yw'n bwriadu dyroddi cyfarwyddyd a rhaid iddo roi i'r corff dyfarnu y rhesymau dros y cyfarwyddyd arfaethedig a phennu pa bryd y mae'n bwriadu gwneud y penderfyniad. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y corff dyfarnu gyflwyno sylwadau cyn i'r penderfyniad gael ei wneud ac os yw'n gwneud hynny, rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried. Os yw Cymwysterau Cymru, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, yn bwrw ati i ddyroddi cyfarwyddyd, rhaid iddo wneud hynny yn ysgrifenedig a rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio ag ef. Os nad yw'n cydymffurfio, caiff Cymwysterau Cymru wneud cais i'r Llys am orchymyn mandadol.
86. Ni fyddai'r pŵer hwn i roi cyfarwyddydau yn rhagwahardd Cymwysterau Cymru rhag ceisio ymdrin ag unrhyw bryderon o ran methiannau posibl i gydymffurfio ag amodau drwy drafodaethau gyda chyrff dyfarnu.

### **Adrannau 38 i 40: Cosbau ariannol**

87. Mae'r adrannau hyn yn:
- a) galluogi Cymwysterau Cymru i osod cosb ariannol ar gorff dyfarnu am beidio â chydymffurfio ag amodau a nodi'r gofynion mewn perthynas â rhoi hysbysiad am gosb o'r fath;
  - b) darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar sut i benderfynu ar y swm i'w dalu;
  - c) galluogi cyrff dyfarnu i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn cosb o'r fath; a
  - d) galluogi Cymwysterau Cymru i adennill llog ar unrhyw ran o'r gosb sydd heb ei thalu erbyn amser penodol.
88. O dan adran 47(2)(i) a (j) rhaid i Gymwysterau Cymru nodi yn ei ddatganiad o bolisi yr amgylchiadau pan fo'n debygol o osod cosb o'r fath a'r ffactorau y bydd yn eu hystyried wrth benderfynu ar y swm i'w osod.
89. Os yw'n ymddangos i Gymwysterau Cymru fod corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag amod o ran ei gydnabod neu ag amod cymeradwyo y mae ei gymhwyster a gymeradwywyd yn ddarostyngedig iddo, caiff osod cosb ariannol (gweler adran 38(1) a (2)).

### **Section 37: Power to give directions**

84. This section enables Qualification Wales to require an awarding body to take (or not take) action, through issuing a written direction to that awarding body. A direction could only be issued if Qualifications Wales judged that the awarding body had failed, or was likely to fail, to comply with one or more conditions of recognition and/or one or more conditions of approval, to which the awarding body is subject. Any actions that Qualifications Wales requires (or prohibits) through the direction must be for the purpose of ensuring that the awarding body complies with the condition.
85. Qualifications Wales must give notice to the awarding body if it intends to issue a direction and it must provide the awarding body with the reasons for the proposed direction and specify when it proposes to make the decision. This is so that the awarding body can make representations before the decision is made and, if it does so, Qualifications Wales must consider them. If, having considered any representations, Qualifications Wales proceeds to issue a direction, it must do so in writing and the awarding body must comply with it. If it does not comply, Qualifications Wales may apply to the Court for a mandatory order.
86. This power to give directions would not preclude Qualifications Wales from seeking to address any concerns regarding possible failures to comply with conditions through discussions with awarding bodies.

### **Sections 38 to 40: Monetary penalties**

87. These sections:
- a) enable Qualifications Wales to impose a monetary penalty on an awarding body for non-compliance with conditions and set out the requirements in relation to giving notice of such a penalty;
  - b) provide for the Welsh Ministers to make regulations on how to determine the amount to be paid;
  - c) enable awarding bodies to appeal to the First-tier Tribunal against such a penalty; and
  - d) enable Qualifications Wales to recover interest on any part of the penalty which is unpaid by a particular time.
88. Under section 47(2)(i) and (j) Qualifications Wales must set out in its policy statement the circumstances in which it is likely to impose such a penalty and the factors it will take into account in determining the amount to be imposed.
89. If it appears to Qualifications Wales that an awarding body has failed to comply with a condition of its recognition or a condition of approval to which its approved qualification is subject, it may impose a monetary penalty (see section 38(1) and (2)).

90. Fodd bynnag, rhaid i Gymwysterau Cymru yn gyntaf roi hysbysiad i'r corff dyfarnu am ei fwriad i osod cosb ariannol, gan roi ei resymau, gan bennu'r swm arfaethedig a'r cyfnod y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu gwneud ei benderfyniad pan ddaw i ben. Mae hyn er mwyn rhoi cyfle i'r corff dyfarnu i gyflwyno sylwadau. Yn yr achos hwn, rhaid darparu ar gyfer isafswm cyfnod o 28 o ddiwrnodau (gan ddechrau o'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad).
91. Os yw Cymwysterau Cymru yn penderfynu, ar ôl iddo ystyried unrhyw sylwadau, osod cosb ariannol, rhaid iddo nodi hyn mewn hysbysiad ysgrifenedig pellach, gan bennu'r swm, y cyfnod y mae rhaid i'r taliad gael ei wneud ynddo (rhaid iddo beidio â bod yn llai nag 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad) a nodi'r wybodaeth o ran y seiliau drosto, y modd y caniateir i'r taliad gael ei wneud, hawliau apelio o dan adran 39 a chanlyniadau peidio â thalu.
92. Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn nodi'r gofynion o ran y modd y mae'r swm i gael ei gyfrifo. Rhaid i'r rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddynt allu cael eu gwneud (gweler adran 55(2)). Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau hynny, caiff Cymwysterau Cymru benderfynu ar swm y gosb, er fod rhaid ei fod wedi nodi'r ffactorau y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu ar y swm hwnnw yn ei ddatganiad polisi (adran 47).
93. Caiff corff dyfarnu apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i osod cosb ariannol neu yn erbyn penderfyniad ar swm y gosb. Rhaid i'r apêl gael ei gwneud ar y seiliau a nodir yn adran 39(2). Mae llog hefyd yn daladwy ar unrhyw swm o gosb ariannol nad yw wedi ei dalu ar ôl y "dyddiad cymwys", a ddiffinnir yn adran 40(2), ac eithrio unrhyw gyfnod pan fo'r gofyniad i dalu wedi ei atal dros dro o dan adran 39(3). Y gyfradd llog yw'r hyn a bennir yn adran 17 o Ddeddf Dyfarniadau 1838. Ni chaniateir i gyfanswm y llog fod yn fwy na swm y gosb.

#### **Adrannau 41 i 43: Adennill costau ar gyfer gosod sancsiynau; apelau a llog**

94. Mae'r adrannau hyn yn galluogi Cymwysterau Cymru i adennill costau yr aeth iddynt mewn cysylltiad â gosod sancsiwn. Caniateir mynd i gostau naill ai wrth roi cyfarwyddyd (adran 37), gosod cosb ariannol (adran 38) neu am dynnu cydnabyddiaeth yn ôl (paragraff 19 o Atodlen 3).
95. Mae adran 41 yn disgrifio'r math o gostau y caniateir iddynt gael eu hadennill ac mae'n pennu'r modd y gall Cymwysterau Cymru ei gwneud yn ofynnol i gostau gael eu hadennill a'r manylion sydd i'w darparu i'r corff dyfarnu.
96. Mae adran 42 yn galluogi cyrff dyfarnu i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau a nodir yn is-adran (2) yn erbyn penderfyniad gan Gymwysterau Cymru i adennill costau neu o ran swm y costau.
97. Mae adran 43 yn darparu i log gronni ar unrhyw swm o gostau nad yw wedi ei dalu ar ddiwedd y cyfnod sy'n gorffen â'r "dyddiad cymwys" fel y'i diffinnir yn adran 43(2) (ac eithrio unrhyw gyfnod pan fo'r gofyniad i dalu yn cael ei atal dros dro o dan adran 42(3)). Rhaid i gyfanswm y llog beidio â bod yn fwy na swm y costau.

90. However, Qualifications Wales must first give notice to the awarding body of its intention to impose a monetary penalty, giving its reasons, specifying the proposed amount and the period following which Qualifications Wales proposes to make its decision. This is to give the awarding body an opportunity to make representations. In this case a minimum period of 28 days (starting from the date the notice is sent) must be provided for.
91. If, having considered any representations, Qualifications Wales decides to impose a monetary penalty, it must set this out in a further written notice, specifying the amount, the period within which payment must be made (which must not be less than 28 days beginning with the date of the notice) and setting out information as to the grounds for it, how payment may be made, rights of appeal under section 39 and the consequences of non-payment.
92. Regulations made by the Welsh Ministers will set out the requirements as to how the amount is to be calculated. These regulations must be approved by a resolution of the National Assembly for Wales before they can be made (see section 55(2)). Subject to the constraints imposed by those regulations, Qualifications Wales may decide the amount of the penalty, though it must have set out the factors which it is likely to take into account in deciding upon that amount in its policy statement (section 47).
93. An awarding body may appeal to the First-tier Tribunal against a decision to impose a monetary penalty or against a decision as to the amount of the penalty. The appeal must be made on the grounds set out in section 39(2). Interest also is payable on any amount of an unpaid monetary penalty after the “applicable date” defined in section 40(2), except for any period during which the requirement to pay is suspended under section 39(3). The rate of interest is that specified in section 17 of the Judgments Act 1838. The total amount of interest must not exceed the amount of the penalty.

### **Sections 41 to 43: Costs recovery for imposition of sanctions; appeals and interest**

94. These sections enable Qualifications Wales to recover costs incurred by it in connection with imposing a sanction. The costs may be incurred either in the giving of a direction (section 37), the imposing of a monetary penalty (section 38) or for the withdrawal of recognition (paragraph 19 of Schedule 3).
95. Section 41 describes the type of costs that may be recovered and specifies how Qualifications Wales can require costs recovery and the details to be provided to the awarding body.
96. Section 42 enables awarding bodies to appeal to the First-tier Tribunal on any of the grounds set out in subsection (2) against a decision by Qualifications Wales to recover costs or as to the amount of the costs.
97. Section 43 provides for interest to accrue on any amount of unpaid costs at the end of the period ending with the “applicable date” as defined in section 43 (2) (except for any period during which the requirement to pay is suspended under section 42(3)). The total amount of interest must not exceed the amount of the costs.

#### **Adran 44: Mynd i mewn i fangre a'i harolygu**

98. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i wneud cais i ynad heddwch am orchymyn i'w alluogi i fynd i mewn i fangre corff dyfarnu i arolygu a chopio cofnodion a dogfennau, neu eu symud o'r fangre, a'i gwneud yn ofynnol cael mynediad at ddyfeisiau electronig, cyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig ac arolygu a gwirio eu gweithrediad. Pan fo gorchymyn yn ei le, rhaid i'r person awdurdodedig gael cymorth yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn rhesymol gan y person awdurdodedig. Dim ond aelod o staff sydd wedi ei awdurdodi gan Gymwysterau Cymru at ddibenion yr adran hon a gaiff wneud cais i'r ynad heddwch. Dim ond os yw'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod y gofynion yn is-adrannau (3) i (5) wedi eu bodloni y gellir gwneud gorchymyn. Os rhoddir gorchymyn, caiff aelod awdurdodedig o staff Cymwysterau Cymru fynd i mewn i'r fangre at ddiben canfod a yw amod cydnabod neu gymeradwyo, y mae cydnabyddiaeth y corff dyfarnu, neu ffurf ar gymhwyster a ddyfernir ganddo, yn ddarostyngedig iddo, wedi ei dorri. Caiff y gorchymyn ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i swyddog heddlu fynd gyda'r person awdurdodedig. Caiff y person awdurdodedig a'r swyddog heddlu (os bydd yn bresennol) wneud yr amryw bethau a restrir yn is-adran (6) at y diben hwnnw. Os oes angen i'r swyddog heddlu sy'n mynd gyda'r person awdurdodedig ddefnyddio grym rhesymol i alluogi i'r pwerau gael eu harfer, yna caniateir hynny (is-adran (9)).

#### **RHAN 8: ATODOL**

##### **Adran 45: Darparu gwasanaethau etc gan Gymwysterau Cymru**

99. Mae gan Gymwysterau Cymru y pŵer o dan yr adran hon i ddarparu gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau eraill ar sail fasnachol ac i godi ffioedd am y rhain. Caiff Cymwysterau Cymru ddatblygu arbenigedd mewn perthynas â chymwysterau a allai fod o werth masnachol. Yn wahanol i sefyllfa pan fo unrhyw ffioedd i'w codi mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoleiddiol (y cynllun y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ymlaen llaw ar ei gyfer o dan adran 49), bydd Cymwysterau Cymru yn gallu pennu ei raddfa ffioedd ei hun ar gyfer gweithgareddau masnachol heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.
100. Er enghraifft, efallai y bydd Cymwysterau Cymru yn meddwl ei bod yn hwylus darparu gwasanaethau o'r fath drwy gwmni. Mae'r adran hon yn caniatáu i Gymwysterau Cymru ddarparu'r gwasanaethau drwy gwmni a berchenogir yn gyfan gwbl, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. O dan adran 47, rhaid i Gymwysterau Cymru nodi datganiad o'i bolisi o ran arfer y swyddogaeth hon.

##### **Adran 46: Adolygu ac ymchwil**

101. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion a nodir yn adran 54(2) (cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol). Gweler hefyd adran 47 o ran y gofyniad i lunio datganiad o'i bolisi mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Rhan hon.



#### **Section 44: Entry and inspection of premises**

98. This section enables Qualifications Wales to apply to a justice of the peace for an order allowing it to enter an awarding body's premises to inspect and copy records and documents, or remove them, and to require access to, and to inspect and check the operation of, electronic devices, associated apparatus or material. Where there is an order in place, the authorised person must be assisted as the authorised person may reasonably require. Only a member of staff authorised by Qualification Wales for the purposes of this section may apply to the justice of the peace. An order can be made only if the justice of the peace is satisfied that the requirements in subsections (3) to (5) are met. If an order is granted, an authorised member of Qualifications Wales's staff may enter the premises for the purpose of ascertaining whether there has been a breach of a condition of recognition or approval to which the awarding body's recognition, or a form of qualification awarded by it, is subject. The order may permit or require a police officer to accompany the authorised person. The authorised person and police officer (if in attendance) may do the various things listed in subsection (6) for that purpose. If an accompanying police officer needs to use reasonable force to enable the exercise of the powers, then this is permitted (subsection (9)).

### **PART 8: SUPPLEMENTARY**

#### **Section 45: Provision of services etc by Qualifications Wales**

99. Qualifications Wales has the power under this section to provide consultancy and other services on a commercial basis and to charge fees for these. Qualifications Wales may develop expertise in relation to qualifications that could be of value commercially. Unlike the position with any charges to be made in connection with its regulatory functions (the scheme for which requires the prior approval of the Welsh Ministers under section 49), Qualifications Wales will be able to determine its own scale of charges for commercial activities without reference to the Welsh Ministers.
100. Qualifications Wales may for example think it expedient to provide such services through a company. This section allows Qualifications Wales to provide the services through a wholly owned company, subject to the Welsh Ministers' approval. Under section 47, Qualifications Wales must set out a statement of its policy on the exercise of this function.

#### **Section 46: Review and research**

101. In exercising its functions under this section, Qualifications Wales must have regard to the principles set out in section 54(2) (performance of regulatory activities). See also section 47 as to the requirement to prepare a statement of its policy in relation to its functions under this Part.

102. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i adolygu'n barhaus y dyfarniad o gymwysterau a gymeradwywyd ac a ddynodwyd a gweithgareddau eraill cyrff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w cydnabyddiaeth, ynghyd â chynnal unrhyw adolygiadau eraill sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar gymwysterau (mae "cymhwyster" wedi ei ddiffinio yn adran 56. Er enghraifft, caiff Cymwysterau Cymru gynnal adolygiad o brosesau sicrhau ansawdd corff cydnabyddedig unigol, neu caiff benderfynu adolygu'r prosesau ar gyfer cyflenwi asesiadau ar-lein yr holl gyrff dyfarnu y mae'n eu cydnabod. Mewn perthynas â chymwysterau a gymeradwywyd neu a ddynodwyd, caiff Cymwysterau Cymru, er enghraifft, benderfynu adolygu ffurf ar gymhwyster Bioleg TGAU un corff dyfarnu, neu caiff benderfynu, er enghraifft, adolygu pob cymhwyster a gymeradwywyd a/neu ddynodwyd ar lefel benodol. Caiff Cymwysterau Cymru hefyd, er enghraifft, ddymuno cynnal adolygiad o gymwysterau a ddyfernir gan gyrff nad ydynt wedi eu cydnabod ganddo neu gymwysterau y mae cyrff cydnabyddedig wedi penderfynu eu heithrio rhag cael eu cydnabod.
103. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adolygu ei rôl ei hun a rôl cyrff dyfarnu yn gyson. Caniateir i'r ddyletswydd hon, er enghraifft, gwmpasu ystyried a ddylai Cymwysterau Cymru ddod yn gorff dyfarnu ac ym mha ffordd, mewn amser. Byddai angen deddfwriaeth bellach i wneud hyn (gweler paragraffau 6 a 7 uchod).
104. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i wneud neu i gomisiynu gwaith ymchwil ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chymwysterau. Caiff Cymwysterau Cymru ddefnyddio ei staff ei hun i wneud y gwaith ymchwil hwn, neu caiff ofyn i eraill ei wneud ar ei ran.

#### **Adran 47: Datganiad polisi a datganiad ynghylch ymgynghori**

105. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu mynd ati i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddiol allweddol. Diben y datganiad polisi yw gwneud y ffordd y mae Cymwysterau Cymru yn debygol o fynd ati i gyflawni ei swyddogaethau yn dryloyw i'r rheini y mae'n bosibl y bydd yn effeithio arnynt a'r cyhoedd yn gyffredinol. Rhaid i'r datganiad gynnwys gwybodaeth am y materion a restrir yn is-adran (2), gan y gallai'r materion hyn gael effaith sylweddol ar gyrff dyfarnu a'r modd y maent yn cynnal eu busnes.
106. Yn ogystal, mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru lunio datganiad am yr amgylchiadau y mae'n bwriadu ymgynghori ynddynt a'r modd y mae'n bwriadu gwneud hynny. Nid yw hyn yn gyfyngedig i ymgynghoriadau ysgrifenedig, a byddai hefyd yn cwmpasu ffurfiau eraill ar ryngweithio ag eraill gyda golwg ar gael eu safbwyntiau.
107. Rhaid i'r datganiadau hyn gael eu hadolygu'n gyson a'u diwygio, os yw hynny'n briodol. Rhaid cyhoeddi'r datganiad cyntaf ac unrhyw ddatganiadau diwygiedig dilynol.

102. This section enables Qualifications Wales to review the awarding of approved and designated qualifications and other activities of recognised bodies relevant to their recognition, on an ongoing basis, as well as to conduct any other reviews related to any aspect of qualifications (“qualification” is defined in section 56). For example, Qualifications Wales may conduct a review of an individual recognised body’s quality assurance processes, or it may decide to review the processes for delivering online assessment of all awarding bodies that it recognises. In relation to approved or designated qualifications, Qualifications Wales may, for example, decide to review one awarding body’s form of GCSE Biology, or it may decide, for example, to review all approved and/or designated qualifications at a given level. Qualifications Wales may also, for example, wish to review qualifications awarded by bodies that are not recognised by it or qualifications that recognised bodies have decided to exclude from recognition.
103. The section also requires Qualifications Wales to keep its own role and that of awarding bodies under review. This duty may, for example, encompass consideration of whether and in what way, in time, Qualifications Wales should become an awarding body. This would require further legislation (see paragraphs 6 and 7 above).
104. The section also gives Qualifications Wales the power to undertake or commission research, about any matter connected with qualifications. Qualifications Wales may use its own staff to carry out this research, or it may ask others to carry it out on its behalf.

#### **Section 47: Policy statement and statement about consultation**

105. This section requires Qualifications Wales to publish information that sets out the approach it intends to take to performing its key functions. The purpose of the policy statement is to make Qualification Wales’s likely approach to its functions transparent to those potentially affected by them and the public generally. The statement must include information on the matters listed in subsection (2), as these matters could impact significantly on awarding bodies and how they conduct their business.
106. In addition, subsection (3) requires Qualifications Wales to prepare a statement about the circumstances and the manner in which it proposes to consult. This is not confined to written consultations, and would also cover other forms of interaction with others with a view to getting their views.
107. These statements must be kept under review and if appropriate revised. Both the first statement and any subsequent revised statements must be published.

#### **Adran 48: Cwynion**

108. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi'r ffyrdd y bydd yn ymdrin â chwynion y mae'n eu cael, pa un a ydynt am arfer ei swyddogaethau ei hun, yn ymwneud yn benodol â dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd, neu'n ymwneud ag unrhyw weithgareddau eraill corff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w gydnabyddiaeth. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru benderfynu pa drefniadau y bydd yn eu dilyn mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r mathau hyn o gwynion, a chyhoeddi'r trefniadau hyn. Caniateir i'r trefniadau fod yn wahanol yn unol â'r math o gwyn. Mae'n bosibl y bydd Caiff Cymwysterau Cymru yn ystyried, unwaith y mae wedi ymdrin â chwyn hyd at bwynt penodol, fod angen atgyfeirio'r gwyn at drydydd parti annibynnol a chaiff y trefniadau hyn sydd wedi eu cyhoeddi wneud darpariaeth ar gyfer hyn. Mae is-adran (4) yn diffinio person fel un sy'n 'annibynnol' at y diben hwn pan na fo'r person yn aelod o Gymwysterau Cymru nac ychwaith yn aelod o'i staff (neu, mewn achos pan fo'r person annibynnol yn gorff, os nad yw unrhyw un o'i aelodau yn aelod o Gymwysterau Cymru nac yn aelod o staff Cymwysterau Cymru).

#### **Adran 49: Cynllun codi ffioedd**

109. Mae'r adran hon yn nodi pwerau Cymwysterau Cymru i godi ffioedd. Os yw Cymwysterau Cymru yn dymuno codi ffioedd ar gyrrff dyfarnu mewn cysylltiad â'i weithgareddau rheoleiddiol a restrir yn is-adran (1), rhaid iddo yn gyntaf lunio rhestr o'r ffioedd arfaethedig mewn perthynas â chostau Cymwysterau Cymru mewn cynllun sydd i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys swyddogaethau gorfodi yn Rhan 7 (mae pŵer penodol yn adran 41 i Gymwysterau Cymru adennill costau mewn cysylltiad â gosod sancsiynau). Dim ond yn unol â'r cynllun (neu'r cynllun fel y'i diwygiwyd) y caiff Cymwysterau Cymru godi ffioedd, a rhaid ei fod wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi.

#### **Adran 52: Cydweithio**

110. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i weithio gydag eraill, ar yr amod ei fod yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad â'i swyddogaethau ei hun. Er enghraifft, efallai y bydd Cymwysterau Cymru am gydweithio â rheoleiddwyr cymwysterau eraill y DU mewn perthynas ag adolygu ffurfiau dynodedig ar gymhwyster sydd hefyd yn cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill, neu ymchwilio i gwynion ynghylch y ffurfiau dynodedig hynny.

### **Section 48: Complaints**

108. This section requires Qualifications Wales to publish information that sets out the ways in which it will deal with complaints that it receives, whether they are about the exercise of its own functions, specifically relate to the award of an approved or designated qualification, or are about any other activities of a recognised body which are relevant to its recognition. This section requires Qualifications Wales to decide what arrangements it will follow in respect of any of these types of complaints, and to publish these arrangements. The arrangements may be different according to the type of complaint. Qualifications Wales may consider that, once it has handled a complaint to a certain point, there is a need to refer the complaint to an independent third party and these published arrangements may make provision for this. Subsection (4) defines a person as being 'independent' for this purpose where the person is neither a member of Qualifications Wales nor a member of its staff (or, in the case of the independent person being a body, if none of its members is a member of Qualifications Wales or a member of Qualifications Wales's staff).

### **Section 49: Charging scheme**

109. This section sets out Qualifications Wales's powers to charge fees. If Qualifications Wales wishes to charge awarding bodies in connection with its regulatory activities listed in subsection (1), it must first produce a list of the proposed fees relating to Qualification Wales's costs in a scheme which is to be approved by the Welsh Ministers. This does not include enforcement functions in Part 7 (there is a specific power in section 41 for Qualifications Wales to recover costs in connection with imposing sanctions). Qualifications Wales can only charge fees in accordance with the scheme (or the scheme as revised), which must have been approved by the Welsh Ministers and published.

### **Section 52: Joint working**

110. This section enables Qualifications Wales to work with others, providing it considers it appropriate to do so in connection with its own functions. For example, Qualifications Wales may wish to work jointly with other UK qualifications regulators in relation to reviewing - or investigating complaints about - designated forms of qualification which are also regulated by the other regulators.

## **RHAN 9: CYFFREDINOL**

### **Adran 55: Rheoliadau**

111. Mae'r adran hon yn ymdrin â sut y caniateir i'r pwerau o dan y Ddeddf hon i wneud rheoliadau gael eu harfer a pha bethau y caniateir iddynt eu cynnwys. Mae'r rheoliadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) i gael eu gwneud drwy offeryn statudol yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo offeryn drafft cyn y gall yr offeryn gael ei wneud. Mae'r pwerau i wneud y rheoliadau y cyfeirir atynt yn cael eu darparu yn adrannau 21 (pŵer i bennu gofynion sylfaenol), 38(3) (pŵer i wneud rheoliadau ynghylch swm cosbau ariannol) a 59 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol). Ond os nad yw rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol yn diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid iddynt gael eu gwneud drwy offeryn statudol ond mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys (is-adran(3)).

### **Adran 56: Dehongli cyfeiriadau at "cymhwyster"**

112. Mae'r adran hon yn diffinio "cymhwyster" at ddibenion y Ddeddf. Mae graddau o lefelau amrywiol wedi eu heithrio.

113. Ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb, mae'r diffiniad yn ei gwneud yn ofynnol bod y cymhwyster wedi ei "ddyfarnu yng Nghymru". Mae ystyr yr ymadrodd hwn yn y cyd-destun hwn wedi ei esbonio yn is-adran (2). Mae pa un a ddyfernir cymhwyster yng Nghymru yn dibynnu yn rhannol ar leoliad yr asesiad, neu ddarpar asesiad mewn cysylltiad â'r cymhwyster, y mae rhaid iddo fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, yn hytrach na lleoliad y cyrff dyfarnu. Mae adran 57(4) yn esbonio ymhellach beth yw ystyr hyn.

114. Mae dyfarnu cymhwyster yn cael ei ddiffinio i gynnwys dyfarnu credydau mewn cysylltiad ag elfennau cymhwyster ac i gymhwyster a ddyfernir gan un neu ragor o gyrff gyda'i gilydd. Mae cyfeiriadau at ffurf ar gymhwyster yn gyfeiriadau at y fersiwn o gymhwyster y mae corff dyfarnu penodol yn ei chynnig neu'n dymuno ei chynnig.

### **Adran 57: Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio**

115. Mae is-adran (1) yn darparu bod y Ddeddf i'w darllen ar y cyd â Deddf Addysg 1996. Mae hyn yn golygu bod darpariaethau cyffredinol a diffiniadau cyffredinol yn y Ddeddf honno yn gymwys i'r Ddeddf hon. Er enghraifft, mae i'r term "anghenion addysgol arbennig" (a ddefnyddir yn is-adran (5)) yr un ystyr yn y Ddeddf hon ag a roddir i "special educational needs" yn Neddf Addysg 1996 (gweler adran 312 o'r Ddeddf honno). Ond pan fo gan ymadrodd yn y Ddeddf hon ddehongliad gwahanol i'r hyn a geir yn Neddf Addysg 1996, y diffiniad yn y Ddeddf hon sy'n gymwys yn hytrach na'r diffiniad yn Neddf Addysg 1996.

116. Mae is-adran 3 yn nodi diffiniadau sy'n hunanesboniadol ac mae is-adran (4) yn delio â'r hyn a olygir i berson gael ei asesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, sy'n dibynnu ar y lleoliad lle y mae'r dysgwr yn gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hasesu (er enghraifft sefyll arholiad neu gyflawni gweithgaredd sy'n cael ei arsylwi) yn hytrach na lleoliad y person sy'n llunio barn ar yr asesiad (er enghraifft arholwr sy'n marcio papurau arholiad mewn man arall yn y DU).

## **PART 9: GENERAL**

### **Section 55: Regulations**

111. This section deals with how the powers under the Act to make regulations may be exercised and what they may contain. The regulations referred to in subsection (2) are to be made by statutory instrument following the affirmative procedure which requires the National Assembly for Wales's approval of a draft instrument before it can be made. The powers to make the regulations referred to are provided in sections 21 (power to specify minimum requirements), 38(3) (power to make regulations about the amount of monetary penalties) and 59 (power to make consequential and transitional provision). But if regulations making consequential and transitional provision do not amend or repeal any provision of an Act of Parliament or a Measure or Act of the National Assembly for Wales, they must be made by statutory instrument, but the negative procedure applies (subsection (3)).

### **Section 56: Interpretation of references to "qualification"**

112. This section defines "qualification" for the purposes of the Act. Degrees of various levels are excluded.

113. Except so far as a contrary intention appears, the definition requires that the qualification is "awarded in Wales". The meaning of this expression in this context is explained in subsection (2). Whether a qualification is awarded in Wales depends in part upon the location of the assessment, or prospective assessment in respect of the qualification, which must be wholly or mainly in Wales, rather than the location of the awarding bodies. Section 57(4) explains further what this means.

114. An award of a qualification is defined as including the award of credits in respect of components of a qualification and to a qualification awarded by one or more bodies together. References to a form of a qualification are to the version of a qualification that a particular awarding body offers or wishes to offer.

### **Section 57: General interpretation and index of defined expressions**

115. Subsection (1) provides that the Act is to be read as one with the Education Act 1996. This means that general provisions and general definitions in that Act apply to this Act. For example, the term "special educational needs" (used in subsection (5)) has the same meaning in this Act as that given in the Education Act 1996 (see section 312 of that Act). But where an expression in this Act has a different interpretation from that in the Education Act 1996, the definition in this Act applies rather than the definition in the Education Act 1996.

116. Subsection (3) sets out definitions which are self-explanatory and subsection (4) deals with what it means for a person to be assessed wholly or mainly in Wales, which depends upon the location where the learner carries out the activities being assessed (for example sitting an examination or performing an observed activity) as opposed to the location of the person making the assessment judgement (for example an examiner marking question papers elsewhere in the UK).

117. Mae diffiniadau hefyd wedi eu darparu mewn cysylltiad â'r hyn a olygir yn y Ddeddf wrth gyfeirio at berson sydd ag anhawster dysgu ac at gorff yn cael ei gydnabod mewn cysylltiad â chymhwyster.

#### **Adran 58: Diwygiadau canlyniadol**

118. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth i ystyried sefydlu Cymwysterau Cymru a'r system reoleiddiol newydd.

#### **Adran 59: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc**

119. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol, ddarpariaeth atodol neu ddarpariaeth gysylltiedig, neu unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed o dan amgylchiadau a nodir.

#### **Adran 60: Dod i rym**

120. Mae'r adran hon yn darparu i ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf ddod i rym pan gaiff y Cydsyniad Brenhinol. Bydd darpariaethau eraill y Ddeddf yn dod i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchmynion cychwyn a wneir o dan yr adran hon.

#### **Adran 61: Enw byr a chynnwys y Ddeddf fel un o'r Deddfau Addysg**

121. Mae'r adran hon yn hunanesboniadol. Gweler paragraff 72 uchod ynghylch effaith rhestru'r Ddeddf hon fel un o'r Deddfau Addysg.

### **ATODLEN 1 CYMWYSTERAU CYMRU**

#### **RHAN 1 - SEFYDLU CYMWYSTERAU CYMRU**

122. Cyflwynir yr Atodlen hon gan adran 2.

#### **Paragraff 1: Statws**

123. Mae'r paragraff hwn yn egluro nad corff i'r Goron yw Cymwysterau Cymru.

#### **Paragraff 2: Aelodaeth**

124. Mae'r paragraff hwn yn amlinellu aelodaeth Cymwysterau Cymru. Bydd y Prif Weithredwr yn aelod o Gymwysterau Cymru a bydd cadeirydd ac wyth i ddeg aelod arferol yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru.

#### **Paragraffau 3 i 9: Y cadeirydd ac aelodau arferol**

125. Mae'r paragraffau hyn yn amlinellu'r gofynion a'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â phenodiadau, ymddiswyddo a'r posibilrwydd o symud aelodau o Gymwysterau Cymru o'u swydd. Dim ond unwaith y caniateir i'r cadeirydd gael ei ailbenodi fel cadeirydd, ac mae cyfyngiadau ar delerau penodi ac ailbenodi aelodau arferol yn galluogi i aelodaeth Cymwysterau Cymru gael ei hadnewyddu'n rheolaidd.

#### **Paragraffau 10 i 16: Y prif weithredwr a staff eraill**

126. Bydd y prif weithredwr cyntaf yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru, am gyfnod o hyd at dair blynedd a bydd penodiadau dilynol yn cael eu gwneud gan Gymwysterau Cymru. Caniateir ailbenodiadau i rôl y prif weithredwr.



117. Definitions are also provided in respect of what is meant in the Act by references to a person having a learning difficulty and to a body being recognised in respect of a qualification.

#### **Section 58: Consequential amendments**

118. This section introduces Schedule 4 containing consequential amendments to legislation to take account of the establishment of Qualifications Wales and the new regulatory system.

#### **Section 59: Power to make consequential and transitional provision etc**

119. This section empowers the Welsh Ministers to make regulations to provide for any consequential, supplementary or incidental provision, or any transitional, transitory or saving provisions in the circumstances set out.

#### **Section 60: Coming into force**

120. This section provides for certain provisions within the Act to come into force on Royal Assent. The remaining provisions of the Act come into force on the date specified by the Welsh Ministers in commencement orders made under this section.

#### **Section 61: Short title and inclusion as one of the Education Acts**

121. This section is self-explanatory. See paragraph 722 above about the effect of this Act being listed as one of the Education Acts.

### **SCHEDULE 1 QUALIFICATION WALES**

#### **PART 1 - ESTABLISHMENT OF QUALIFICATIONS WALES**

122. This Schedule is introduced by section 2.

#### **Paragraph 1: Status**

123. This paragraph explains that Qualifications Wales is not a Crown body.

#### **Paragraph 2: Membership**

124. This paragraph outlines the membership of Qualifications Wales. The Chief Executive Officer will be a member of Qualifications Wales and a chair and eight to ten ordinary members will be appointed by the Welsh Ministers.

#### **Paragraphs 3 to 9: The chair and ordinary members**

125. These paragraphs outline the requirements and restrictions relating to the appointments, resignation and potential removal of members of Qualifications Wales. The chair may be reappointed as chair once only, and restrictions on the ordinary members' terms of appointment and reappointment enable the membership of Qualifications Wales to be regularly renewed.

#### **Paragraphs 10 to 16: The chief executive and other staff**

126. The first chief executive will be appointed by the Welsh Ministers, for a period of up to three years and subsequent appointments will be made by Qualifications Wales. Reappointments to the role of chief executive are permitted.

127. Ac eithrio'r prif weithredwr cyntaf, caiff Cymwysterau Cymru benodi ei staff ei hun. (Mae hyn yn ychwanegol at bŵer Gweinidogion Cymru i wneud cynllun trosglwyddo o dan Atodlen 2 i'r Ddeddf i drosglwyddo staff o Lywodraeth Cymru i Gymwysterau Cymru). Bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu ar delerau ac amodau, tâl a darpariaethau pensiwn staff - ond rhaid i'r trefniadau hyn gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Ni fydd staff Cymwysterau Cymru yn weision sifil.

#### **Paragraffau 17 a 18: Pwyllgorau**

128. Mae'r paragraffau hyn yn rhoi'r pwerau i Gymwysterau Cymru i sefydlu a diddymu pwyllgorau, is-bwyllgorau a chyd-bwyllgorau. Mae Cymwysterau Cymru yn gallu talu tâl a lwfansau i aelodau pob un o'r tri chategori hyn o bwyllgor (oni bai eu bod hefyd yn aelodau o Gymwysterau Cymru neu ei staff).

#### **Paragraffau 19 i 21: Dirprwyo**

129. Mae'r paragraffau hyn yw rhoi'r pwerau i Gymwysterau Cymru i ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i aelod o Gymwysterau Cymru, i aelod o staff, i bwyllgor neu i gyd-bwyllgor. Caiff pwyllgor neu gyd-bwyllgor isddirprwyo swyddogaeth i un o'i is-bwyllgorau. Caiff pwyllgorau a chyd-bwyllgorau osod telerau a graddau'r dirprwyo i is-bwyllgor, ond mae unrhyw ddirprwyo, yn achos pwyllgor, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Gymwysterau Cymru ac yn achos cyd-bwyllgor, i gyfarwyddyd a roddir gan Gymwysterau Cymru a'r person y mae'r cyd-bwyllgor wedi ei sefydlu gydag ef. Mae telerau'r dirprwyo ac unrhyw gyfarwyddyd yn llywodraethu'r hyn y caiff pwyllgor ei wneud neu beidio â'i wneud.

#### **Paragraffau 22 i 25: Gweithdrefn**

130. Caiff Cymwysterau Cymru benderfynu ar y weithdrefn (er enghraifft, y cylch gorchwyl) ar ei gyfer ef ei hun a'i bwyllgorau. Caiff pwyllgorau reoleiddio gweithdrefn yr is-bwyllgorau y maent yn eu sefydlu. Caiff cyd-bwyllgorau osod eu gweithdrefnau eu hunain a gweithdrefnau'r is-bwyllgorau y maent yn eu sefydlu. Nid yw lleoedd gwag o ran aelodaeth neu ddiffygion o ran penodiadau i Gymwysterau Cymru, ei bwyllgorau, is-bwyllgorau neu gyd-bwyllgorau yn effeithio ar ddilysrwydd y trafodion.

#### **Paragraff 26: Cofrestr buddiannau**

131. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gofnodi a chyhoeddi buddiannau ei aelodau.

#### **Paragraff 27: Pwerau atodol**

132. Mae'r paragraff hwn yw rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol neu'n briodol mewn perthynas â'i swyddogaethau. Mae is-baragraff (2) yn nodi'r eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol honno, gyda'r effaith na all Cymwysterau Cymru fynd y tu hwnt i unrhyw drothwy gwariant a nodir gan Weinidogion Cymru, nac ychwaith cael benthyg neu roi benthyg arian, heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Bydd unrhyw drothwy gwariant yn cael ei nodi mewn hysbysiad a roddir i Gymwysterau Cymru gan Weinidogion Cymru.

127. Other than the first chief executive, Qualifications Wales may appoint its own staff. (This is in addition to the power of the Welsh Ministers to make a transfer scheme under Schedule 2 to the Act to transfer staff from the Welsh Government to Qualifications Wales). Qualifications Wales will determine the terms and conditions, remuneration and pension provisions for staff – but these arrangements must be approved by the Welsh Ministers. The staff of Qualifications Wales will not be civil servants.

### **Paragraphs 17 and 18: Committees**

128. These paragraphs give Qualifications Wales powers to establish and to dissolve committees, sub-committees and joint committees. Qualifications Wales is able to pay remuneration and allowances to members of each of these three categories of committee (unless they are also members of Qualifications Wales or its staff).

### **Paragraphs 19 to 21: Delegation**

129. These paragraphs give Qualifications Wales the powers to delegate any of its functions to a member of Qualification Wales, to a member of staff, to a committee or to a joint committee. A committee or a joint committee may itself sub-delegate a function to one of its sub-committees. Committees and joint committees may set the terms and extent of a delegation to a sub-committee, but any delegation, in the case of a committee, is subject to any direction given by Qualifications Wales and in the case of a joint committee, to a direction given by Qualifications Wales and the person with whom the joint-committee is established. The terms of the delegation and any direction govern what a committee may or may not do.

### **Paragraphs 22 to 25: Procedure**

130. Qualifications Wales may determine the procedure (for example, the terms of reference) for itself and its committees. Committees may regulate the procedure of sub-committees they establish. Joint committees may set out their own procedures and those of sub-committees they establish. Vacancies in membership or deficiencies in appointments to Qualifications Wales, its committees, sub-committees or joint committees do not affect the validity of the proceedings.

### **Paragraph 26: Register of interests**

131. This paragraph requires Qualifications Wales to record and publish its members' interests.

### **Paragraph 27: Supplementary powers**

132. This paragraph gives Qualifications Wales the power to do anything necessary or appropriate in relation to its functions. Sub-paragraph (2) sets out the exceptions to that general position, with the effect that Qualifications Wales can neither exceed any expenditure threshold set out by the Welsh Ministers, nor borrow or lend money, without the Welsh Ministers' approval. Any expenditure threshold will be set out in a notice given to Qualifications Wales by the Welsh Ministers.

**Paragraffau 28 i 30: Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau eraill**

133. Mae'r paragraffau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn pennu'r hyn y mae rhaid i'r adroddiad hwnnw ei gynnwys, gan alluogi Gymwysterau Cymru i gynnwys gwybodaeth ychwanegol. Yn ogystal ag adrodd ar ei waith yn ystod y flwyddyn flaenorol, a nodi ei gynigion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, rhaid i Gymwysterau Cymru adrodd ar unrhyw ganfyddiadau y mae wedi eu gwneud yn y flwyddyn adrodd am effaith ei weithgareddau ar y system gymwysterau, am ei waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac am unrhyw gasgliadau y mae wedi dod iddynt drwy waith ymchwil y mae wedi ei wneud. Gallai rhanddeiliaid gynnwys, er enghraifft, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch, ysgolion, colegau, cyrff dyfarnu, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr eraill.
134. Mae'r flwyddyn adrodd yn rhedeg i 31 Awst bob blwyddyn a rhaid llunio'r adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad hwnnw. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi. Caiff Gymwysterau Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau ychwanegol fel y mae'n gweld yn dda ar faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau.

**Paragraff 31: Ariannu**

135. Mae'r paragraff hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cyllid ar ffurf grantiau i Gymwysterau Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi telerau ac amodau unrhyw grantiau o'r fath.

**Paragraffau 32 - 34: Cyfrifon ac archwilio**

136. Rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau ei fod yn cadw cyfrifon a chofnodion priodol, ac yn llunio datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i Gymwysterau Cymru o ran llunio'r datganiad o gyfrifon sy'n cwmpasu'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad, y modd y mae angen i'r wybodaeth gael ei chyflwyno, y dull a'r egwyddorion y mae angen i'r datganiad gael ei wneud yn unol â hwy ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r datganiad.
137. Mae'r paragraffau hyn yn nodi'r prosesau cyfrifon ac archwilio y mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru eu dilyn; mae'r rhain yn cynnwys llunio a chyflwyno datganiad blynyddol o gyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst bob blwyddyn ac yn unol ag unrhyw gyfarwyddydau a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd a roddir i Gymwysterau Cymru ar unrhyw adeg. Mae'r paragraffau hyn hefyd yn gosod dyletswyddau ar yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r datganiad o gyfrifon ac yn diffinio blwyddyn ariannol.

**Paragraff 35: Cynnal ymchwiliadau i'r defnydd o adnoddau**

138. Mae'r paragraff hwn yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio perfformiad Gymwysterau Cymru ond nid rhinweddau amcanion polisi Gymwysterau Cymru.

**Paragraphs 28 to 30: Annual and other reports**

133. These paragraphs require Qualifications Wales to report annually to the National Assembly for Wales and specify what that report must contain, while enabling Qualifications Wales to include additional information. As well as reporting on its work of the previous year, and setting out its proposals for the coming year, Qualifications Wales must report on any findings it has made in the reporting year about the impact of its activities on the qualification system, about its engagement with stakeholders and about any conclusions it has drawn from research it has undertaken. Stakeholders might include, for example, learners, parents, employers, higher education institutions, schools, colleges, awarding bodies, professional bodies and other regulators.
134. The reporting year runs to 31 August each year and the annual report must be prepared as soon as reasonably practicable after that date. The annual report must be published. Qualifications Wales may produce and publish additional reports as it sees fit on matters relating to its functions.

**Paragraph 31: Finance**

135. This paragraph enables the Welsh Ministers to provide funding in the form of grants to Qualifications Wales. The Welsh Ministers must publish any terms and conditions of such grants.

**Paragraphs -32 - 34: Accounts and audit**

136. Qualifications Wales must ensure it keeps proper accounts and records, and prepare a statement of accounts for each financial year. The Welsh Ministers have the power to issue directions to Qualifications Wales on the preparation of the statement of accounts covering the information to be contained in the statement, how the information needs to be presented, the method and principles according to which the statement needs to be made and any other additional information to accompany it.
137. These paragraphs set out the accounts and audit processes required of Qualifications Wales; these include the preparation and submission to the Auditor General for Wales of an annual statement of accounts by 31 August each year and, in accordance with any directions provided by the Welsh Ministers. The Welsh Ministers may vary or revoke a direction given to Qualifications Wales at any time. These paragraphs also places duties on the Auditor General in relation to the statement of accounts and defines financial year.

**Paragraph 35: Examination of use of resources**

138. This paragraph enables the Auditor General for Wales to audit the performance of Qualifications Wales but not the merits of Qualifications Wales' policy objectives.

## **ATODLEN 1 RHAN 2**

### **Paragraffau 36 - 40: Diwygiadau canlyniadol**

139. Mae'r paragraffau hyn yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Effaith y diwygiadau hyn yw:
- y bydd Cymwysterau Cymru yn dod yn ddarostyngedig i gael ei adolygu gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
  - bod rhaid i Gymwysterau Cymru lynu wrth ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
  - y caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i Gymwysterau Cymru; a
  - bod rhaid i Gymwysterau Cymru gydymffurfio â dyletswyddau o dan Deddf Cydraddoldeb 2010.

## **ATODLEN 2: TROSGLWYDDO EIDDO A STAFF I GYMWYSTERAU CYMRU**

140. Mae'r Atodlen hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo eiddo, hawliau, rhwymedigaethau a staff i Gymwysterau Cymru drwy gynllun neu gynlluniau trosglwyddo. Rhaid i Weinidogion Cymru osod y cynllun neu'r cynlluniau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i darperir ym mharagraff 5.
141. Mae paragraff 1(3) yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r darpariaethau ychwanegol y caniateir iddynt gael eu gwneud yn y cynllun, gan gynnwys creu hawliau a gosod rhwymedigaethau, darparu i faterion sydd wedi eu trosglwyddo gael effaith barhaus, a gwneud darpariaeth sydd yr un fath â darpariaeth a wneir gan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 neu'n debyg iddi o dan amgylchiadau pan na fo'r rheoliadau hynny yn gwmwys.
142. Mae paragraff 2 yn caniatáu i gynllun gael ei addasu drwy gytundeb ac i addasiadau o'r fath gael eu hól-ddyddio i ddyddiad gwreiddiol y cynllun.
143. Mae paragraff 3 yn egluro'r modd y mae cyflogaeth unigolion yn y gwasanaeth sifil i gael ei thrin at ddibenion trosglwyddo o dan gynllun i Gymwysterau Cymru.
144. Mae paragraff 4 yn darparu ar gyfer ystyron termau wedi eu diffinio sy'n ymddangos yn yr Atodlen hon.

## **ATODLEN 3: DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH CYDNABOD CYRFF DYFARNU**

### **Paragraff 1: Cyfnod para cydnabyddiaeth**

145. Mae'r paragraff hwn yn egluro dyddiad dechrau cydnabyddiaeth corff dyfarnu ac yn pennu'r tri amgylchiad pan ddaw cydnabyddiaeth i ben.

## **SCHEDULE 1 PART 2**

### **Paragraphs 36 - 40: Consequential Amendments**

139. These paragraphs contain amendments to primary legislation. The effect of these amendments is that Qualifications Wales:
- a) will become subject to review by the Children's Commissioner for Wales and the Commissioner for Older People in Wales;
  - b) must adhere to the requirements of the Freedom of Information Act 2000;
  - c) may be investigated by the Public Services Ombudsman for Wales; and
  - d) must comply with duties under the Equality Act 2010.

## **SCHEDULE 2: TRANSFERS OF PROPERTY AND STAFF TO QUALIFICATIONS WALES**

140. This Schedule enables the Welsh Ministers to transfer property, rights, liabilities and staff to Qualifications Wales through a transfer scheme or schemes. The Welsh Ministers must lay the scheme(s) before the National Assembly for Wales as provided in paragraph 5.
141. Paragraph 1(3) sets out a non-exhaustive list of the additional provisions that may be made in the scheme, including creating rights and imposing liabilities, providing for matters transferred to have a continuing effect, and to make provision which is the same as or similar to a provision made by the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 in circumstances where those regulations do not apply.
142. Paragraph 2 allows for a scheme to be modified by agreement and for such modifications to be back-dated to the original date of the scheme.
143. Paragraph 3 provides clarification about how the employment of individuals in the civil service is to be treated for the purposes of a transfer under a scheme to Qualifications Wales.
144. Paragraph 4 provides for the meanings of defined terms appearing in this Schedule.

## **SCHEDULE 3: FURTHER PROVISION ABOUT RECOGNITION OF AWARDING BODIES**

### **Paragraph 1: Duration of recognition**

145. This paragraph clarifies the start date of an awarding body's recognition and specifies the three circumstances when recognition ceases.

### **Paragraffau 2 a 3: Amodau cydnabod safonol**

146. Mae'r paragraffau hyn yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i gyhoeddi 'amodau cydnabod safonol' a fydd yn gymwys i gyrff dyfarnu unwaith y byddant wedi cael eu cydnabod. Mae'n debygol y byddai'r amodau cydnabod safonol yn ymwneud ag ystod eang o faterion, megis, er enghraifft, rheoli achosion o wrthdaro buddiannau, darparu staff sydd â'r cymwysterau priodol, rheoli effeithiau andwyol a rheoli risgiau. Bydd amodau cydnabod sylfaenol yn gymwys i gorff a gydnabyddir mewn cysylltiad â dyfarnu cymhwyster hyd yn oed os na gymeradwyir neu os na ddyfernir y cymhwyster hwnnw. Mae'r darpariaethau yn caniatáu i amodau gwahanol gael eu cymhwyso mewn perthynas ag:
- a) mathau gwahanol o gyrff dyfarnu (er enghraifft, 'cyrff dyfarnu sy'n elusennau');
  - b) mathau gwahanol o gymhwyster (er enghraifft, 'cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau dynodedig');
  - c) amgylchiadau gwahanol pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu (er enghraifft pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu ar ôl i ddysgwyr ailsefyll modiwl); a
  - d) disgrifiadau gwahanol o berson y mae cymhwyster yn cael ei ddyfarnu iddo (er enghraifft pan gaiff ei ddyfarnu i ddysgwyr o dan 19 oed).
147. Bydd amodau safonol fel arfer yn gymwys i gyrff dyfarnu cydnabyddedig, ond bydd Cymwysterau Cymru yn gallu penderfynu mewn achosion penodol na fydd rhai o'r amodau safonol a fyddent fel arall yn gymwys yn gymwys a chaiff wneud y penderfyniad hwnnw naill ai wrth roi cydnabyddiaeth neu ar ôl hynny. Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu dirymu ei benderfyniad. Mae paragraff 2(6) yn darparu nad yw amodau 'capiu ffioedd' a 'trosglwyddo' yn amodau safonol (gweler paragraff 4 o Atodlen 3 am ragor o wybodaeth am amodau capio ffioedd a throsglwyddo sydd wedi eu diffinio fel 'amodau arbennig').
148. Gall Cymwysterau Cymru ddiwygio'r amodau safonol, ond os yw'n gwneud hynny rhaid iddo gyhoeddi'r diwygiadau, hysbysu cyrff cydnabyddedig a bod yn glir am y dyddiad y byddant yn gymwys ohono (mewn perthynas â chorff, ni all y dyddiad hwnnw fod cyn y mae wedi ei hysbysu amdano). Caniateir i ddyddiadau dechrau gwahanol fod yn gymwys ar gyfer cyrff gwahanol. Er bod rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw (o dan adran 54) i'r egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddiol (megis gorfodi ei amodau safonol) gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, mae unrhyw achos o dorri'r amodau hyn yn sbarduno'r pwerau gorfodi o dan Ran 7 - ynghyd â'r pŵer i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl o dan baragraff 19(1) o Atodlen 3.



### **Paragraphs 2 and 3: Standard Conditions of Recognition**

146. These paragraphs place a duty on Qualifications Wales to publish 'standard conditions of recognition' which will apply to awarding bodies once they have been recognised. It is likely that standard conditions of recognition would be concerned with a broad range of matters, such as, for example, the management of conflicts of interest, the provision of appropriately qualified staff, the management of adverse effects and of risks. Standard conditions of recognition will apply to a body recognised in respect of the award of a qualification even if that qualification is not approved or designated. The provisions allow for different conditions to be applied in relation to:
- a) different types of awarding bodies (for example, 'awarding bodies which are charities');
  - b) different types of qualification (for example, 'awarding bodies offering designated qualifications');
  - c) different circumstances in which a qualification is awarded (for example when a qualification is awarded following the resit of a module by a learner); and
  - d) different descriptions of person to whom a qualification is awarded (for example when awarded to learners under the age of 19).
147. Standard conditions will normally apply to recognised awarding bodies, but Qualifications Wales will be able to decide that in particular cases some standard conditions that would otherwise apply will not apply, and may make that decision either when granting recognition or afterwards. Qualifications Wales can also revoke its decision. Paragraph 2(6) provides that 'fee capping' and 'transfer' conditions are not standard conditions (see paragraph 4 of Schedule 3 for more information about fee-capping and transfer conditions which are defined as 'special conditions').
148. Qualifications Wales can revise the standard conditions, but if it does so it must publish the revisions, notify recognised bodies and be clear about the date from which they apply (which, in relation to a body, cannot be before it has been notified of it). Different start dates may apply to different bodies. While Qualifications Wales must have regard (under section 54) to the principles that regulatory activities (such as the enforcement of its standard conditions) should be carried out in a transparent, accountable, proportionate and consistent way, any breach of these conditions triggers the enforcement powers under Part 7 - as well as the power to withdraw recognition under paragraph 19(1) of Schedule 3.

**Paragraffau 4 a 5: Amodau arbennig y caniateir i gydnabyddiaeth fod yn ddarostyngedig iddynt**

149. Mae'r paragraffau hyn yn nodi'r math arall o amodau (a elwir yn amodau arbennig) y caniateir eu gosod ar gorff dyfarnu cydnabyddedig gan Gymwysterau Cymru, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig iddynt) capio ffioedd (ei gwneud yn ofynnol sicrhau nad yw ffioedd penodol yn mynd y tu hwnt i derfyn penodol); trosglwyddo (ei ddiben yw sicrhau y caniateir i gymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd a ddyfernir gan y corff cydnabyddedig gael ei ddyfarnu gan gorff arall); a'i gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu cydnabyddedig gydymffurfio â chyfarwyddydau a roddir gan Gymwysterau Cymru o dan baragraff 4. Gwneir darpariaeth i Gymwysterau Cymru ddiwygio neu ddirymu'r amodau arbennig hyn, ac mae gofynion hefyd ynghylch hysbysu ac amseru.
150. Rhaid i ddatganiad polisi Cymwysterau Cymru nodi'r amgylchiadau pan fo cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu yn debygol o gael ei gwneud yn ddarostyngedig i amod arbennig, pa bryd y mae'r amodau arbennig yn debygol o gael eu hadolygu neu eu diwygio a'r ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried wrth wneud hynny (adran 47(2)).

**Paragraffau 6 i 11: Amodau capio ffioedd**

151. Mae'r paragraffau hyn yn diffinio beth yw amod capio ffioedd. Dim ond mewn perthynas â chymwysterau a gymeradwywyd neu a ddynodwyd a ddyfernir i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg neu hyfforddiant sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ac sy'n arwain at y cymwysterau hynny y gellir cyfyngu ar ffioedd (er enghraifft ffioedd cofrestru ar gyfer arholiad). Caniateir i ffioedd a godir o ganlyniad i'r ddarpariaeth o wasanaethau neu gyfleusterau gan y corff mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymwysterau hynny i ddysgwyr o'r fath, er enghraifft ffioedd a godir am ddarparu tystysgrif newydd yn lle'r un wreiddiol, gael eu cyfyngu gan amod capio ffioedd hefyd. Rhaid i Gymwysterau Cymru fod wedi ei fodloni ei bod yn briodol gosod yr amod i sicrhau gwerth am arian. Mae adran 47(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru nodi yn ei ddatganiad polisi y meini prawf y mae'n debygol o'u cymhwyso wrth benderfynu a yw'n briodol gosod amod capio ffioedd, y materion sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu ar y terfyn a bennir ynddo a chyfnod para tebygol yr amod. Diffinnir cwrs addysg sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus ym mharagraff 6(2).
152. Mae paragraff 8 yn nodi'r broses y caiff Cymwysterau Cymru osod amod capio ffioedd drwyddi, gan gynnwys y gofyniad i roi hysbysiad i'r corff dyfarnu o dan sylw am ei fwriad i osod yr amod, rhoi resymau dros ei fwriad i osod yr amod a dweud pa bryd y mae'n bwriadu penderfynu pa un ai i osod yr amod. Rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried sylwadau a gyflwynir gan y corff ac os yw'n penderfynu gosod yr amod, rhaid hysbysu'r corff am hyn a hefyd am ei hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddweud pa bryd y mae'r amod yn cymryd effaith os nad yw'r corff yn gwneud cais am adolygiad.

### **Paragraphs 4 and 5: Special conditions to which recognition may be subject**

149. These paragraphs set out the other type of conditions (known as special conditions) that may be placed on a recognised awarding body by Qualifications Wales, including (but not limited to) fee-capping (a requirement that certain fees don't exceed a given limit); transfer (the purpose of which is to ensure that an approved or designated qualification awarded by the recognised body may be awarded by another body); and a requirement for recognised awarding bodies to comply with directions given by Qualifications Wales under paragraph 4. Provision is made for Qualifications Wales to revise or revoke these special conditions, and there are also requirements regarding notification and timing.
150. Qualifications Wales's policy statement must set out the circumstances in which recognition of an awarding body is likely to be made subject to a special condition, when special conditions are likely to be reviewed or revised and the factors that are likely to be taken into account in doing that (section 47(2)).

### **Paragraphs 6 to 11: Fee capping conditions**

151. These paragraphs define what a fee capping condition is. It can only limit fees (for example, examination entry fees) in relation to approved or designated qualifications awarded to learners who are undertaking publicly funded courses of education or training leading to those qualifications. Fees charged as a result of the body's provision of services or facilities in respect of the award of those qualifications to such learners, for example fees for the provision of replacement certificates, may also be limited by a fee-capping condition. Qualifications Wales must be satisfied that it is appropriate to impose the condition to secure value for money. Section 47(2) requires Qualifications Wales to set out in its policy statement the criteria it is likely to apply in determining whether it is appropriate to impose a fee capping condition, the matters likely to be taken into account in determining the limit specified in it and the likely duration of one. A "course of education which is publicly funded" is defined in paragraph 6(2).
152. Paragraph 8 sets out the process by which Qualifications Wales may impose a fee capping condition, including the requirement to give notice to the concerned awarding body of its intention to impose the condition, give reasons for why it intends to impose the condition and say when it is proposed to decide whether to impose the condition. Qualifications Wales must consider representations made by the body and if it decides to impose the condition, the body must be notified of this and also of its right to request a review of the decision. The notice must also say when the condition takes effect if the body does not make a request for review.

153. Os yw'r corff yn gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad i osod amod capio ffioedd, mae paragraff 10 yn darparu manylion am y trefniadau y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu gwneud wrth drefnu i adolygydd annibynnol adolygu'r penderfyniad. Yn dilyn yr adolygiad, os yw Cymwysterau Cymru yn cadarnhau ei benderfyniad i osod yr amod, neu'n newid yr amod, yna rhaid i Gymwysterau Cymru roi hysbysiad i'r corff dyfarnu sy'n cynnwys y manylion a nodir ym mharagraff 10(5).
154. Mae paragraff 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ddilyn yr un weithdrefn ar gyfer diwygio amod capio ffioedd ag ar gyfer dyroddi amod capio ffioedd cychwynnol.

### **Paragraffau 12 i 16: Amodau trosglwyddo**

155. Caniateir i amod trosglwyddo alluogi Cymwysterau Cymru i gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo pethau i gorff dyfarnu arall er mwyn i'r corff arall hwnnw ddyfarnu'r cymhwyster. Y seiliau dros roi cyfarwyddyd o'r fath yw bod Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar ddysgwyr. Os yw'r digwyddiadau a ddisgrifir yn yr amod yn dod i fod, caiff Cymwysterau Cymru gyfarwyddo corff dyfarnu i wneud trefniadau i alluogi corff dyfarnu arall i gyflenwi ffurf a gymeradwywyd neu a ddynodwyd ar gymhwyster. Rhaid i Gymwysterau Cymru nodi mewn datganiad polisi yr amgylchiadau pan fo cyfarwyddyd yn debygol o gael ei roi i gorff dyfarnu yn unol ag amod trosglwyddo a phwnc tebygol unrhyw gyfarwyddyd o'r fath (adran 47(2)).
156. Mae paragraffau 13 a 14 yn nodi'r broses i Gymwysterau Cymru pan fo'n bwriadu gwneud y cyfarwyddyd, i'r corff dyfarnu gael ei hysbysu am gyfarwyddyd arfaethedig, ac i'r corff allu gwneud cais am adolygiad o unrhyw benderfyniad dilynol i gyfarwyddo. Mae paragraff 16 yn nodi manylion y broses ar gyfer adolygiad gan berson annibynnol. Os yw Cymwysterau Cymru, yn dilyn yr adolygiad, yn cadarnhau ei benderfyniad, mae paragraff 16 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru hysbysu'r corff ac mae'n nodi pa fanylion y mae rhaid i'r hysbysiad eu cynnwys.
157. Mae paragraff 15 yn galluogi Cymwysterau Cymru i dalu digollediad i'r corff mewn cysylltiad â cholledion yr aed iddynt wrth gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, ond dim ond os yw Cymwysterau Cymru yn meddwl ei bod yn rhesymol ac yn briodol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau. Rhaid i Gymwysterau Cymru, mewn datganiad polisi o dan adran 47(2), nodi'r materion y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud taliad o'r fath ac wrth benderfynu ar ei swm.

153. If the body requests a review of the decision to impose a fee-capping condition, paragraph 10 provides details about the arrangements Qualifications Wales must make in arranging for an independent reviewer to review the decision. Following the review, if Qualifications Wales confirms its decision to impose the condition, or changes the condition, then Qualifications Wales must give notice to the awarding body which includes the details set out in paragraph 10(5).
154. Paragraph 11 requires Qualifications Wales to follow the same procedure for revising a fee-capping condition as for the issue of an initial fee-capping condition.

### **Paragraphs 12 to 16: Transfer conditions**

155. A transfer condition may enable Qualifications Wales to direct an awarding body to transfer things to another awarding body in order for that other body to award the qualification. The grounds for giving such a direction are that Qualifications Wales considers it necessary to do so to avoid significant adverse effects on learners. If events described in the condition come to pass, Qualifications Wales may direct an awarding body to make arrangements to enable another awarding body to deliver an approved or designated form of a qualification. Qualifications Wales must set out in a policy statement the circumstances in which a direction is likely to be given to an awarding body in accordance with a transfer condition and the likely subject matter of any such direction (section 47(2)).
156. Paragraphs 13 and 14 set out the process for Qualifications Wales when it proposes to make the direction, for the awarding body to be notified of a proposed direction, and for the body to be able to request a review of any subsequent decision to direct. Paragraph 16 sets out the details of the process for review by an independent person. If following the review Qualifications Wales confirms its decision, paragraph 16 also requires Qualifications Wales to notify the body and sets out what details the notice must contain.
157. Paragraph 15 enables Qualifications Wales to pay compensation to the body in respect of losses sustained in complying with the direction, but only if Qualifications Wales thinks it is reasonable and appropriate to do so in the circumstances. Qualifications Wales, in a policy statement under section 47(2), must set out the matters it is likely to take into account in determining whether to make such a payment and in determining the amount of it.

**Paragraffau 17 a 18: Ildio cydnabyddiaeth**

158. O dan baragraff 17, caiff corff dyfarnu cydnabyddedig roi hysbysiad ildio i Gymwysterau Cymru gan ofyn iddo dynnu ei gydnabyddiaeth o'r corff dyfarnu - naill ai mewn cysylltiad â phob cymhwyster y'i cydnabyddir ar ei gyfer neu mewn perthynas â chymhwyster penodedig (neu ddisgrifiad penodedig o gymhwyster). Rhaid i'r hysbysiad ildio bennu'r dyddiad y mae'r corff dyfarnu yn dymuno i'r gydnabyddiaeth ddod i ben. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi cydnabyddiaeth o ildio i'r corff dyfarnu sy'n nodi'r dyddiad y bydd y gydnabyddiaeth yn dod i ben. Caniateir i'r dyddiad fod yr un peth â'r dyddiad a gynigir gan y corff dyfarnu neu ddyddiad gwahanol, fel y gwêl Cymwysterau Cymru yn briodol. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi rhesymau yn yr hysbysiad o ran pam y mae dyddiad gwahanol i'r un a gynigiwyd gan y corff dyfarnu yn cael ei ddarparu, ac mae paragraff 17(6) yn cyfeirio at y materion y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried wrth benderfynu ar y dyddiad i'r gydnabyddiaeth gael ei hildio, sef yr angen i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr a dymuniad y corff dyfarnu i'r gydnabyddiaeth ddod i ben ar y dyddiad y mae wedi ei bennu.
159. O dan baragraff 18, caiff Cymwysterau Cymru, am gyfnod penodedig, drin corff sydd wedi ildio ei gydnabyddiaeth fel pe bai'n parhau i gael ei gydnabod at ddibenion penodedig. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud darpariaeth o'r fath er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr y caiff wneud hynny. Gwneir darpariaeth debyg mewn cysylltiad ag ildio cymeradwyaeth (gweler y nodiadau sy'n mynd gydag adran 26).

**Paragraffau 19 i 23: Tynnu cydnabyddiaeth yn ôl**

160. Mae'r paragraffau hyn yn galluogi Cymwysterau Cymru i roi terfyn ar ei gydnabyddiaeth o gorff dyfarnu mewn cysylltiad â chymhwyster (neu ddisgrifiad o gymhwyster) neu bob cymhwyster y mae'r corff dyfarnu wedi ei gydnabod mewn cysylltiad ag ef. Dim ond os nad yw'r corff dyfarnu yn cydymffurfio ag amodau cydnabod neu amodau cymeradwyo y caniateir i gydnabyddiaeth gael ei thynnu'n ôl. Canlyniadau tynnu'r gydnabyddiaeth yn ôl yw bod Cymwysterau Cymru wedyn yn gallu tynnu cymeradwyaeth i gymwysterau yn ôl o dan adran 27, byddai'r dynodiad hwnnw yn peidio â bod o dan adran 30 ac nid yw'r corff dyfarnu yn gallu gwneud cais mwyach i'w gymwysterau gael eu cymeradwyo neu eu dynodi. Dim ond cyrff cydnabyddedig a all wneud cais i'w cymwysterau gael eu cymeradwyo neu eu dynodi.
161. Mae'r broses ar gyfer tynnu cydnabyddiaeth yn ôl wedi ei nodi ym mharagraffau 20 i 22 ac mae'n cynnwys gofynion i roi hysbysiad gyda rhesymau dros y cynnig i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl, i ystyried sylwadau a gyflwynir gan y corff cydnabyddedig, i hysbysu'r corff cydnabyddedig am benderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl a'i hawl i adolygu ac i wneud trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r penderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl os yw'r corff dyfarnu yn gwneud cais am adolygiad o'r fath. Os yw Cymwysterau Cymru, yn dilyn yr adolygiad, yn cadarnhau ei benderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl, rhaid i'r corff dyfarnu cydnabyddedig gael ei hysbysu am y penderfyniad ac am ba bryd y bydd y tynnu'n ôl yn cymryd effaith.

### **Paragraphs 17 and 18: Surrender of recognition**

158. Under paragraph 17, a recognised awarding body may give Qualifications Wales a surrender notice asking it to remove its recognition of the awarding body – either in respect of every qualification for which it is recognised or in relation to a specified qualification (or description of qualification). The surrender notice must specify the date on which the awarding body wishes the recognition to end. Qualifications Wales must give the awarding body an acknowledgement of surrender which sets out the date that recognition will come to an end. The date may be the same as that proposed by the awarding body or a different date, as Qualifications Wales thinks appropriate. Qualifications Wales must give reasons in the notice as to why a different date is provided from that proposed by the awarding body, and paragraph 17(6) refers to the matters that Qualifications Wales must consider in deciding upon the date for recognition to be surrendered, which are the need to avoid prejudice to learners and the awarding body’s wish that recognition ceases on the date it has specified.
159. Under paragraph 18, Qualifications Wales, for a specified period of time, may treat a body that has surrendered its recognition as if it continues to be recognised for specified purposes. Qualifications Wales may only make such a provision if it thinks it appropriate to do so to avoid prejudice to learners. Similar provision is made in respect of the surrender of approval (see the notes accompanying section 26).

### **Paragraphs 19 to 23: Withdrawal of Recognition**

160. These paragraphs enable Qualifications Wales to end its recognition of an awarding body in respect of a qualification (or description of qualification) or every qualification in respect of which the awarding body is recognised. Recognition may be withdrawn only if the awarding body does not comply with conditions of recognition or conditions of approval. The consequences of withdrawal of recognition are that Qualifications Wales is then able to withdraw approval of qualifications under section 27, that designation would cease under section 30 and that the awarding body is no longer able to apply for approval or designation of its qualifications. Only recognised bodies can apply for approval or designation of their qualifications.
161. The process for withdrawing recognition is set out in paragraphs 20 to 22 and includes requirements to give notice with reasons for the proposal to withdraw, to consider representations made by the recognised body, to notify the recognised body of a decision to withdraw and its right to review and to make arrangements for an independent review of the decision to withdraw if the awarding body requests such a review. If following the review Qualifications Wales confirms its decision to withdraw recognition, the recognised awarding body must be notified of the decision and when the withdrawal will take effect.

162. Mae paragraff 23 yn nodi bod hysbysiadau a roddir gan Gymwysterau Cymru o dan baragraffau 21 neu 22 (tynnu cydnabyddiaeth yn ôl, neu gadarnhau penderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl) yn gallu gwneud darpariaeth i'r perwyl bod corff y mae ei gydnabyddiaeth wedi ei thynnu'n ôl yn parhau i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gydnabod am gyfnod penodedig ac at ddibenion penodedig. Gwneir hyn er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ychwanegol a nodir ym mharagraff 23(3). Gwneir darpariaeth debyg mewn cysylltiad â thynnu cymeradwyaeth yn ôl (gweler y nodiadau sy'n mynd gydag adran 28).

#### **ATODLEN 4: DIWYGIADAU CANLYNIADOL**

163. Mae'r Atodlen hon yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth i adlewyrchu bod y Ddeddf hon yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr system newydd o reoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Un newid o'r fath yw diddymu swyddogaethau rheoleiddiol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymwysterau o dan Ddeddf Addysg 1997; newid arall yw cyfyngu ar gymhwysu'r cyfyngiad ar gyllido cyrsiau penodol gydag arian cyhoeddus yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 i Loegr yn unig, gan fod adran 34 yn darparu'r cyfyngiad newydd o ran Cymru. Mae'r Atodlen hefyd yn diddymu darpariaethau anarferedig cysylltiedig.

#### **COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

164. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: <http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/bus-legislation/Pages/bus-legislation.aspx>

<b>Cyfnod</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwyno	01 Rhagfyr 2014
Cyfnod 1 - Dadl	24 Mawrth 2015
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	30 Ebrill 2015
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	16 Mehefin 2015
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	16 Mehefin 2015
Y Cydsyniad Brenhinol	05 Awst 2015



162. Paragraph 23 sets out that notices given by Qualifications Wales under paragraphs 21 or 22 (withdrawing recognition, or confirming withdrawal of recognition) can make a provision to the effect that a body that has had its recognition withdrawn, continues to be treated as if it is recognised for a specified time and for specified purposes. This is to avoid prejudice to learners. The notice must include the additional information set out in paragraph 23(3). Similar provision is made in respect of the withdrawal of approval (see the notes accompanying section 28).

#### **SCHEDULE 4: CONSEQUENTIAL AMENDMENTS**

163. This Schedule makes changes to legislation to reflect that this Act establishes Qualifications Wales as the regulator of a new system of qualification regulation in Wales. One such change is the repeal of the Welsh Ministers' regulatory functions relating to qualifications under the Education Act 1997; another is to confine the application of the restriction on public funding of certain courses in the Learning and Skills Act 2000 to England only, since section 34 provides the new restriction in relation to Wales. The Schedule also repeals related obsolete provisions.

#### **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

164. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://www.assembly.wales/en/bus-home/bus-legislation/Pages/bus-legislation.aspx>

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	01 December 2014
Stage 1 - Debate	24 March 2015
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	30 April 2015
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	16 June 2015
Stage 4 Approved by the Assembly	16 June 2015
Royal Assent	05 August 2015

---

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

**Ar-lein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

**Y Llyfrfa**

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Rhyngrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office) and available from:**

**Online**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

Email: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890

General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-11088-3



9 780348 110883